

# 21 The Mabinogion

## Language notes

In this section we will review the use of the preposition 'i'.  
A number of compound prepositions include **i**. For example:

**wrth i**; while...

**Gwnes i gwrdd â Steven wrth i mi gerdded trwy'r sgwâr.**

I met Steven as I walked through the square.

**cyn i**; before ...

**Dylech chi ffonio'r garej cyn i chi fynd i nôl y car.**

You should phone the garage before you go to collect the car.

**erbyn i**; by the time ...

**Bydd hi'n dywyll erbyn iddyn nhw ddod i lawr o'r mynydd.**

It will be dark by the time they come down from the mountain.

**nes i**; until ....

**Arhosodd yn y swyddfa nes iddo orffen ysgrifennu'r adroddiad.**

He stayed in the office until he had finished writing the report.

**tan i**; until ....

**Gweithiodd yn y caffi tan iddi ddechrau ei chwrs coleg.**

She worked in the cafe until she started her college course.

The common expressions '**well i mi...**' ('it is better if I...', or 'I prefer to...') and '**rhaid i mi...**' ('I must...' or 'I have to...') make use of the verb **bod** to specify the time of the event:

'**well i mi...**' implies '**it is better if I...**' :

**Mae'n well i mi brynu llysiau yn y farchnad yn hytrach na'r siop.**

It is better if I buy vegetables in the market rather than the shop.

**Roedd yn well iddo fe fynd ar wyliau i Sir Benfro.**

It was better for him to go on holiday to Pembrokeshire.

**Rwy'n disgwyl y bydd yn well iddo fe brynu car trydan.**

I expect that it will be better for him to buy an electric car.

Similar expressions can be written using **gan** in place of **i**. The difference is slight, but '**well gen i...**' implies '**I prefer to...**' :

**Mae'n well gen i brynu llysiau yn y farchnad yn hytrach na'r siop.**

I prefer to buy vegetables in the market rather than the shop.

**Roedd yn well ganddo fe fynd ar wyliau i Sir Benfro.**

He preferred to go on holiday to Pembrokeshire.

**Rwy'n disgwyl y bydd yn well ganddo fe brynu car trydan.**

I expect that he will prefer to buy an electric car.

Similarly:

**Mae'n rhaid i mi fynd â'r llyfrau yn ôl i'r llyfrgell.**

I must take the books back to the library.

although this can also be written more simply as:

**Rhaid i mi fynd â'r llyfrau yn ôl i'r llyfrgell.**

I must take the books back to the library.

**Roedd yn rhaid i ni fod yn ofalus wrth gerdded ar hyd llwybr y clogwyn.**

We had to be careful walking along the cliff path.

**Bydd yn rhaid i ni drefnu cyfarfod ar gyfer y mis nesaf.**

We will have to arrange a meeting for next month.

A number of verbs commonly make use of 'i' to indicate a person or object who is the direct recipient of an action, for example:

**eisiau i chi;** ...want you to...

**Rwyf eisiau iddi ddod i'r parti.**

I want her to come to the party.

**hoffi i chi;** ...like you to...

**Bydden ni'n hoffi i'r staff fod yn fwy cyfeillgar i gwsmeriaid.**

We would like the staff to be more friendly to customers.

**gwneud i chi;** ...make you...

**Bydd y brifysgol yn gwneud i chi dalu am yr offer labordy.**

The university will make you pay for the laboratory equipment.

**gadael i chi;** ...leave you to...

**Rhaid i chi fy ngadael i orffen y garddio.**

You must leave me to finish the gardening.

**caniatáu i chi;** ...allow you to...

**Bydd y ffermwr yn caniatáu i chi groesi'r cae.**

The farmer will allow you to cross the field.

**disgwyl i chi;** ...expect you to...

**Mae'r cynghorydd yn disgwyl i ni bleidleisio drosto fe.**

The councillor expects us to vote for him.

**gofyn i chi;** ...ask you to...

**Gwnaethon ni ofyn i'r adeiladwr atgyweirio'r to.**

We asked the builder to repair the roof.

**addo i chi;** ...promise you that..

**Gwnaethon nhw addo i'r trefnydd y byddent yn dod i'r digwyddiad.**

They promised the organiser that they would come to the event.

In some cases an action is carried out on an object, then the preposition 'i' is used to specify who is affected as a result:

**anfon --- i chi;** send --- to you

**Byddaf yn anfon llythyr i'r cwmni.**

I will send a letter to the company.

**rhoi** --- i chi; give --- to you

**Mae hi'n rhoi'r llyfrau i'r siop elusennol.**

She is giving the books to the charity shop.

**gwerthu** --- i chi; sell --- to you

**Maen nhw'n mynd i werthu'r paentiad i amgueddfa.**

They are going to sell the painting to a museum.

**tal** --- i chi; pay --- to you

**Roedd yn rhaid i mi dalu £200 i'r garej am yr atgyweiriadau.**

I had to pay £200 to the garage for the repairs.

**cynnig** --- i chi; offer --- to you

**Mae'r gwesty'n cynnig pris arbennig i gwsmeriaid busnes.**

The hotel offers a special price to business customers.

**dangos** --- i chi; show --- to you

**Roedd yr athro cemeg yn dangos yr arbrawf i'r myfyrwyr.**

The chemistry teacher was showing the experiment to the students.

**estyn** --- i chi; extend -- to you

**Hoffwn ni estyn croeso cynnes i'n hymwelwyr.**

We would like to extend a warm welcome to our visitors.

## Treigladau

In all of the expressions shown above, a treigladd meddal is applied whenever possible after the preposition 'i', for example:

**Rhaid i chi fy ngadael i orffen y garddio.**

You must leave me to finish the gardening.

**Maen nhw'n mynd i werthu'r paentiad i amgueddfa.**

They are going to sell the painting to a museum.

**Mae'r gwesty'n cynnig pris arbennig i gwsmeriaid busnes.**

The hotel offers a special price to business customers.

A treigladd meddal is applied after phrases with the patterns '**well i mi...**', '**well gen i...**' and '**rhaid i mi...**'. For example:

**Roedd yn well iddo fe fynd ar wyliau i Sir Benfro.**

It was better for him to go on holiday to Pembrokeshire.

**Rwy'n disgwyl y bydd yn well ganddo fe brynu car trydan.**

I expect that he will prefer to buy an electric car.

**Bydd yn rhaid i ni drefnu cyfarfod ar gyfer y mis nesaf.**

We will have to arrange a meeting for next month.

The set of prepositions '**wrth**', '**tra**', '**gan**' and '**fel**' may all in particular circumstances represent the English word '**while**'.

'**wrth**' is used to mean '**while**', in the sense that someone is carrying out two actions at the same time. A soft mutation is applied where possible after '**wrth**'. For example:

**Roedd hi'n gwau wrth wylio'r teledu.**

She was knitting while watching the television.

**Crafodd y car wrth yrru i mewn i'r man parcio.**

He scratched the car while driving into the parking space.

**Gwnaethon nhw gyfarfod wrth deithio ar drên.**

They met while travelling on a train.

'tra' is always linked at a tense of the verb **bod**, creating phrases such as '**while I am...**' and '**while I was...**'. No treigladd is applied after **tra**. Examples are:

**Roeddwn i'n byw yn y tŷ hwnnw tra roeddwn i'n fyfyrwr.**

I lived in that house while I was a student.

**Rhaid i chi ymweld â'r castell tra eich bod yn y dref.**

You must visit the castle while you are in the town.

**Teithiodd o amgylch Affrica tra oedd yn ifanc.**

He travelled around Africa while he was young.

'gan' is often used when an extra action is added to the end of a sentence, almost as an after-thought. It again has the meaning '**while**'.

'gan' produces a treigladd meddal where possible:

**Gwnaethon ni gerdded ar hyd y promenâd gan fwyta hufen iâ.**

We walked along the promenade while eating ice-cream.

**Aeth y myfyrwyr am ginio gan adael eu bagiau yn yr ystafell ddosbarth.**

The students went for lunch while leaving their bags in the classroom.

**Cerddon nhw i fyny'r mynydd gan obeithio y byddai'r glaw yn stopio.**

They walked up the mountain while hoping that the rain would stop.

'fel' can represent the English word '**while**' in the sense of '**at the time that...**', or '**as...**'. No treigladd is applied after **fel**. Examples are:

**Fel roedden ni'n croesi'r bont, daeth cwch ar hyd yr afon.**

While we were crossing the bridge, a boat came along the river.

**Fel roedd y ffermwr yn agor y giât, rhedodd y defaid i'r cae.**

While the farmer was opening the gate, the sheep ran into the field.

**Fel byddaf yn cerdded trwy'r dref, byddaf yn edrych am fwyty.**

While I am walking through the town, I will look for a restaurant.

## Idioms

In this section we will look at a further collection of common phrases and idioms using the preposition '**yn**', meaning 'in':

**yn y pen draw** - in the long run

**Mae'n debygol yn y pen draw y bydd Iwerddon yn cael ei haduno.**

It is likely that Ireland will eventually be reunited.

**yn yr un cwch** - in the same situation

**Roedd llawer o weithwyr yn yr un cwch pan gaeodd y pyllau glo a'r gweithfeydd dur.**

Many workers were in the same situation when the coal mines and steel works closed.

**yn y bore bach** - very early in the morning

**Mae'r ffermwr yn dechrau yn y llaethdy yn y bore bach.**

The farmer begins in the dairy very early in the morning.

**yn y diwedd** - in the end

**Gwnaethon nhw gadw'r hen gar am flynyddoedd, ond yn y diwedd fe wnaethant ei ddisodli.**

They kept the old car for years, but in the end they replaced it.

**yn llygad ei le** - absolutely right

**Roedd yn llygad ei le i beidio â thalu'r tâl parcio.**

He was absolutely right to not pay the parking charge.

**yn oriau mân y bore** - in the early hours of the morning

**Dechreuodd y tân yn y ffatri yn oriau mân y bore.**

The fire in the factory started in the early hours of the morning.

**yn y bôn** - basically

**Mae'n gwneud esgusodion ond yn y bôn dydy e ddim eisiau weithio yn Llundain.**

He makes excuses but basically he does not want to work in London.

**yn niffyg** - because of the lack of, in the absence of

**Yn niffyg paratoi, aeth yr alldaith i drafferthion.**

Because of a lack of preparation, the expedition got into difficulties.

**yn y blaen** - in the forefront

**Mae'r brifysgol yn y blaen gydag ymchwil ar ynni'r llanw.**

The university is in the forefront with research on tidal energy.

**ac yn y blaen** - and so on

**Mae'r adroddiad yn trafod ffyrdd, rheilffyrdd, trafnidiaeth ac yn y blaen.**

The report discusses roads, railways, transport and so on.

**yn nghysgod** - in the shadow of

**Mae ein busnes lleol yn nghysgod cwmnïau rhyngwladol mawr.**

Our local business is in the shadow of large multinational companies.

**yn fy ngwaed** - in my blood

**Cafodd ei fagu yn Aberdaron ac roedd ganddo'r môr yn ei waed.**

He was brought up Aberdaron and had the sea in his blood.

**yn fy myw** - for the life of me

**Ni allaf i yn fy myw deall pam y gadawodd ei swydd ar y fferm.**

I can't for the life of me understand why he left his job on the farm.

**yn ei lawn hyd** - at its full length

**Roedd y tapestri yn cael ei arddangos yn ei lawn hyd yn yr amgueddfa.**

The tapestry was on display in its full length in the museum.

**yn ei hwyliau** - in good spirits

**Roedd y myfyrwyr yn ei hwyliau pan oedd yr arholiadau wedi gorffen.**

The students were in good spirits when the examinations had finished.

**yn ei elfen** - in his element

**Roedd yn ei elfen yn dadlau am wleidyddiaeth.**

He was in his element arguing about politics.

**yn ei bryd** - in its own time

**Bydd hi'n gwneud dewis o yrfa yn ei phryd.**

She will make a choice of career in her own time.

## Sentences

Roedd yn golchi'r car wrth wrando ar gerddoriaeth ar y radio.

He was washing the car while listening to music on the radio.

Rydw i eisiau i chi egluro sut mae'r peiriant yn gweithio.

I want you to explain how the machine works.

Gadewais i am saith o'r gloch yn y bore cyn i'r ffyrdd fod yn brysur.

I left at seven o'clock in the morning before the roads were busy.

Hoffwn ichi ddod am bryd o fwyd yn y bwyty.

I would like you to come for a meal in the restaurant.

Roedd y swyddfa ar gau heddiw, gan fod y staff yn y gynhadledd.

The office was closed today, as the staff were at the conference.

Fyddwn i ddim yn mynd i nofio tra byddaf i'n blinedig.

I would not go swimming while I am tired.

Gwnaethon nhw iddo fe weithio ar y broblem nes iddo wedi ei datrys.

They made him work on the problem until he had solved it.

Erbyn i ni gyrraedd, bydd y caffi ar gau.

By the time we arrive, the cafe will be closed.

Byddaf i'n gadael chi i olchi'r ffenestri tra byddaf yn glanhau'r llawr.

I will leave you to wash the windows while I clean the floor.

Addewais anfon fy aseiniad i'r coleg erbyn dydd Gwener.

I promised to send my assignment to the college by Friday.

Mae'n well gen i werthu'r tŷ i deulu lleol.

I prefer to sell the house to a local family.

Ni chaniataodd y rheolwr i'r ymwelwyr fynd i mewn i'r ffatri.

The manager did not allow the visitors to enter the factory.

Byddai'n well ichi aros tan yr wythnos nesaf.

It would be better for you to wait until next week.

Rhaid i chi ofyn i'r athro drefnu taith i Gaerdydd.

You must ask the teacher to arrange a trip to Cardiff.

Gwelon ni lawer o bethau diddorol wrth i ni'n cerdded o amgylch Aberystwyth.

We saw lots of interesting things while we were walking around Aberystwyth.

Fyddwn ni ddim yn mynd i nofio yn y môr, gan fod y dŵr yn rhy oer.

We will not go swimming in the sea, as the water is too cold.

Wnaethon ni ddim dringo'r mynydd, gan fod perygl o dywydd gwael.

We didn't climb the mountain, as there was a danger of bad weather.

Rhaid imi roi'r rysâit i chi ar gyfer y bastai afal.

I must give you the recipe for the apple pie.


Mae'n well gen i deithio i'r gwaith ar y trê'n ond heddiw mae'n rhaid i mi fynd ar fws.

I prefer to travel to work on the train but today I must go by bus.

Ni chaniateir unrhyw un yn y swyddfa tra bod yr adeiladwyr yn gweithio.

No one is allowed in the office while the builders are working.

## Article: The Mabinogion



Rhwng 1838 a 1845, cyhoeddodd y Foneddiges Charlotte Guest saith cyfrol o straeon gwerin Cymru gyda'r teitl 'The Mabinogion'.

Between 1838 and 1845, Lady Charlotte Guest published seven volumes of Welsh folk tales with the title 'The Mabinogion'.

Roedd Charlotte yn ferch i iarll Sais, ac roedd ganddi ddawn wych mewn llenyddiaeth ac ieithoedd.

Charlotte was the daughter of an English earl, and had a great talent for literature and languages.

Pan oedd yn 21 oed symudodd i Lundain a chwrdd â John Josiah Guest, a phriododd nhw y flwyddyn ganlynol.

When she was 21 she moved to London and met John Josiah Guest, and they married the following year.

John Guest oedd perchennog cyfoethog gwaith haearn ym Merthyr Tudfil, ac roedd wedi cael ei ethol yn aelod seneddol.

John Guest was the wealthy owner of an iron works in Merthyr Tudfil, and had been elected as a member of parliament.

Ymsefydlodd y cwpl ym Merthyr, a datblygodd Charlotte ddiddordeb mawr mewn hanes Celtaidd a chanoloesol.

The couple settled in Merthyr, and Charlotte developed a great interest in Celtic and medieval history.

Dysgodd Gymraeg, a dechreuodd weithio wrth gyfieithu'r ddwy lawysgrif gynharaf o straeon gwerin Cymraeg, Llyfr Gwyn Rhydderch a Llyfr Coch Hergest.

She learned Welsh, and began work in translating the two earliest manuscripts of Welsh folk tales, the White Book of Rhydderch and the Red Book of Hergest.

Roedd y llyfrau wedi'u hysgrifennu â llaw yn y 14eg ganrif.

The books had been written by hand in the 14th century.

Cynhyrchwyd Llyfr Gwyn Rhydderch gan fynachod yn Abaty Strata Florida, ac mae'n cynnwys barddoniaeth a thestunau crefyddol yn ogystal â'r straeon gwerin.

The White Book of Rhydderch was produced by monks at Strata Florida Abbey, and contains poetry and religious texts as well as the folk tales.

Mae Llyfr Coch Hergest yn cynnwys straeon gwerin pellach, a hefyd casgliad o feddyginiaethau llysiuol teulu o feddygon a adnabyddir fel Meddygon Myddfai.

The Red Book of Hergest contains further folk tales, and also a collection of herbal remedies of a family of doctors known as the Physicians of Myddfai.

Byddai'r straeon gwerin a ysgrifennwyd yn y llyfrau wedi bod yn adnabyddus i bobl Geltaidd gynnar Cymru.

The folk tales which were written down in the books would have been well known to the early Celtic people of Wales.

Mae'n hawdd dychmygu'r straeon yn cael eu hadrodd o amgylch y tân gyda'r nos mewn tŷ crwn y pentref.

It is easy to imagine the tales being told around the fire at night in a village round house.

Byddai'r straeon wedi cael eu cludo o bentref i bentref gan storïwyr, a'u trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth.

The tales would have been carried from village to village by storytellers, and handed down from generation to generation.

Cyfieithodd a chyhoeddodd Charlotte Guest bedair cyfrol o straeon sy'n ymddangos i fod yn ddigwyddiadau ym mywydau teuluoedd brenhinol Cymru.

Charlotte Guest translated and published four volumes of stories which seem to be events in the lives of Welsh royal families.

Dychmygir bod llawer o'r digwyddiadau yn y Mabinogion wedi digwydd yn rhannau gorllewinol Cymru.

Many of the events in the Mabinogion are imagined to have taken place in the western parts of Wales.

Mae cyfrolau eraill yn cynnwys straeon am lys y Brenin Arthur.

Other volumes include stories about the court of King Arthur.

Mae'r straeon yn ffuglennol ac yn llawn digwyddiadau hudolus a goruwchnaturiol.

The stories are fictional and full of magical and supernatural happenings.

Yn yr ail gyfrol, cedwir y foneddiges Branwen yn garcharor mewn castell yn Iwerddon.

In the second volume, the lady Branwen is kept prisoner in a castle in Ireland.

Mae hi'n hyfforddi drudwy i gario neges i'w brawd yng Nghymru i'w hachub.

She trains a starling to carry a message to her brother in Wales to rescue her.

Yn y bedwaredd gyfrol, mae dynes hardd Blodeuwedd yn cael ei chreu allan o flodau fel gwraig i Lleu.

In the fourth volume, a beautiful woman Blodeuwedd is created out of flowers as a wife for Lleu.

Maen nhw'n priodi ac yn rheoli tiroedd Eifionnydd ac Ardudwy.

They marry and rule the lands of Eifionnydd and Ardudwy.

Y Mabinogion yw rhagflaenydd ffantasi fodern fel 'The Lord of the Rings' a 'Game of Thrones'.

The Mabinogion is the forerunner of modern fantasy such as 'The Lord of the Rings' and 'Game of Thrones'.



## Speaking and writing challenge

**What is your favourite genre of fiction, for example: crime writing, historical fiction, fantasy or science fiction? Explain to a friend why you like this type of fiction.**

Example article:

Mae ffuglen dditectif yn boblogaidd iawn, mewn nofelau ac fel cyfresi teledu.

Mae'r awdur yn gosod problem heriol y mae'r ditectifs, ynghyd â'r darlennydd neu'r gwyliwr y stori, yn ceisio ei ddatrys.

Mae trosedd wedi'i chyflawni, fel arfer llofruddiaeth ond weithiau digwyddiad arall fel lladrad mawr.

Yna cawn ein cyflwyno i nifer o bobl yr amheuir eu bod wedi cyflawni'r drosedd, a allai fod â rheswm dros wneud hyn, ac a allai wedi cael y cyfle i gyflawni hyn.

Yna mae'r gwaith ditectif yn dechrau o ddifri.

Gallai hyn gynnwys dadansoddi tystiolaeth fforensig, cyfweld â'r rhai a ddrwgdybir, a gwirio eu symudiadau a'u sgysiau ffôn o amgylch amser y drosedd.

Gall teledu cylch cyfyng fod yn dystiolaeth bwysig.

Yn y ffuglen dditectif orau, nid y person a ddrwgdybir amlycaf yw'r un sydd yn euog.

Agweddau ar ffuglen dditectif a all ei wneud yn ddiddorol ac yn ddifyr yw cymeriadau'r ditectifs a'u cydweithwyr yn yr heddlu, a'r lleoliadau a'r cyfnodau amser lle gosodir y straeon.

Gall lleoliadau amrywio o Lundain Fictoraidd Sherlock Homes, i ddramâu modern wedi'u gosod mewn gwahanol ranbarthau o Brydain neu dramor.

Er enghraifft, lleolir 'Morse' o amgylch y brifysgol yn Rhydychen, tra bod 'Y Gwyll' wedi'i lleoli ym mynyddoedd Cymru ger Aberystwyth.

## Story



Mae'r heddlu wedi bod yn derbyn cwynion gan y cyhoedd.

The police have been receiving complaints from the public.

Darganfuwyd nwyddau trydanol, oedd yn ymddangos i gael eu cynhyrchu gan gwmnïau adnabyddus, yn ddiffygiol ac yn beryglus.

Electrical goods, which appeared to be manufactured by well-known companies, were found to be defective and dangerous.

Pan aeth cwsmeriaid â'r eitemau yn ôl, dywedwyd wrthynt fod y nwyddau yn ffug.

When customers returned the items, they were told that the goods were fake.

Roedd eitemau trydanol ffug rhad yn cael eu mewnforio a chafodd labeli brand drud eu rhoi arnyn nhw.

Cheap counterfeit electrical items were imported and expensive brand labels were put on them.

Roedd y nwyddau ffug ar werth ar y rhyngwrwd, ac ar stondinau marchnad.

The fake goods were on sale on the internet, and on market stalls.

Llwyddodd ditectifs i olrhain y cyflenwyr.

Detectives succeeded in tracing the suppliers.

Fe wnaethant ddilyn y trywydd yn ôl i hen ffatri a guddiwyd i ffwrdd mewn ardal ddiwydiannol ddiffaith.

They followed the trail back to an old factory hidden away in a derelict industrial area. Cynhaliodd yr heddlu gyrch a chawsant eu syfrdanu gan yr hyn a ganfuwyd.

The police carried out a raid and were astonished by what they found.

Roedd llawer o fewnfudwyr o Affrica ac Asia yn byw ac yn gweithio yn y ffatri.

Many imigrants from Africa and Asia were living and working in the factory.

Roedd yr amodau byw yn wael iawn, gyda llawer o bobl yn cysgu mewn ystafell orlawn.

Living conditions were very poor, with many people sleeping in a crowded room.

Ffoaduriaid oedd y mewnfudwyr yn ffoi rhag rhyfel neu dlodi yn eu gwledydd.

The immigrants were refugees fleeing from war or poverty in their countries.

Roeddent wedi cael eu smyglo i Brydain mewn cwch a'u cludo i'r ffatri gan bobl-smyglwyr.

They had been smuggled to Britain by boat and taken to the factory by people smugglers.

Dywedwyd wrthynt fod yn rhaid iddynt weithio yn y ffatri yn gwneud y nwyddau ffug.

They were told that they must work in the factory making the counterfeit goods.

Ni chawsant unrhyw gyflog, ond roeddent yn ofni rhedeg i ffwrdd a chael eu dal gan yr heddlu.

They received no wages, but were frightened to run away and get caught by the police.

Atafaelodd yr heddlu'r nwyddau yn y ffatri a mynd â nhw i labordy i'w profi, ac arestiwyd perchnogion y ffatri.

The police seized the goods in the factory and took them to a laboratory for testing, and the factory owners were arrested.

Arestiwyd y mewnfudwyr anghyfreithlon hefyd, a'u cludo i ganolfan gadw.

The illegal immigrants were also arrested, and taken to a detention centre.

Fodd bynnag, caniatawyd iddynt gael trafodaethau â chyfreithwyr a allai eu helpu i wneud cais am loches fel ffoaduriaid.

However, they were allowed to have discussions with lawyers who could help them to apply for asylum as refugees.

Maen nhw i gyd yn gobeithio un diwrnod i fod yn lwcus a dod o hyd i le diogel i fyw.

They all hope one day to be lucky and find a safe place to live.

## Use of Welsh:

### Re-use of an old railway in Anglesey

A proposal has been made to bring the Amlwch to Gaerwen railway line on Anglesey back into use.



**A survey has been carried out to obtain the opinions of local people. On the web page you are invited to translate the comments into Welsh, so that a bilingual report can be produced.**

"Mae'r lein wedi cael ei defnyddio ar gyfer cludo nwyddau tan ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, mae'r trac yn dal i fod mewn cyflwr da fel y gellir ei ailagor fel rheilffordd".

"The line has been used for freight until thirty years ago, track is still in good condition so it can be reopened as a railway".

"Mae'r cynllun rheilffordd yn ymarferol a byddai'n dod â buddion economaidd i'r ardal.

"The railway scheme is practical and would bring economic benefits to the area.

Byddai'n darparu gwasanaeth i deithwyr rhwng Amlwch a'r brif reilffordd Caergybi-Bangor".

It would provide a passenger service between Amlwch and the main Holyhead-Bangor railway line".

"Dylai fod yn llwybr amlbwrpas ar gyfer cerdded, beicio a cheffylau.

"It should be a multi purpose path for walking, cycling and horses.

Mae gan bawb geir y dyddiau hyn, felly fyddai neb yn defnyddio'r trê".

Everyone has cars these days, so nobody would use the train".

"Mae unrhyw reilffordd newydd a agorir yng Nghymru yn newyddion da.

"Any new railway opened in Wales is good news.

Mae symud pobl oddi ar y ffordd i drafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, bob amser yn fudd".

Moving people off the road to affordable public transport, especially in rural areas, is always a benefit".

"Byddwn yn cwestiynu'r cynllun busnes, gan fod sawl rhan o'r rheilffordd wedi cael eu gadael i bydru.

"I would question the business plan, as several sections of the railway have been left to decay.

Gallai atgyweirio gorsafoedd a phontydd fod yn ddrud iawn".

Repairing stations and bridges could be very expensive".

"Gallai'r prosiect ddatblygu fel rheilffordd gymunedol a fydd yn gwasanaethu anghenion ei chymunedau yn bennaf.

"The project could develop as a community railway that will primarily serve the needs of its communities.

Bydd ei threftadaeth a'i photensial i dwristiaid hefyd eu cydnabod".

Its heritage and tourism potential will also be recognised".

"Mae rheilffordd treftadaeth wedi gweithio mewn sawl ardaloedd i ddarparu buddion twristiaeth.

"Heritage railways have worked in many areas in providing tourism benefits.

Mae yna lawer o lwybrau cerdded ar Ynys Môn felly byddai'n gwneud synnwyr cadw hwn at ddefnydd y rheilffordd".

There are many walking paths on Anglesey so it would make sense to keep this for railway use".

"Byddai defnyddio'r hen lein yn caniatáu i gerddwyr neu feicwyr deithio o arfordir de Ynys Môn i Amlwch ar arfordir y gogledd heb ddod i gysylltiad ag unrhyw gerbydau o gwbl.

"Using the old line would allow walkers or cyclists to travel from the south coast of Anglesey to Amlwch on the north coast without coming into contact with any vehicles at all.

Byddai hyn yn agor y ffordd ar gyfer digwyddiadau fel marathonau a rhediadau hwyl a allent gael eu rhedeg yn ddiogel ar hyd y llwybr".

This would open the way for events such as marathons and fun runs which could be run safely along the route".

"Bydd y cynllun yn gwella cysylltiadau rheilffordd rhwng Ynys Môn a Bangor a bydd yn annog mwy o ddefnydd o'r rhwydwaith rheilffyrdd, gan leihau tagfeydd ffyrdd".

"The scheme will improve rail connections between Anglesey and Bangor and will encourage greater use of the rail network, reducing road congestion".

"Byddai agor rheilffordd stêm i Amlwch yn help mawr i dref sydd wedi bod yn ei chael hi'n anodd yn ddiweddar.

"Opening a steam railway to Amlwch really would really help a town that has been struggling lately.

Byddai'n llwyddiant twristiaeth enfawr".

It would be a huge tourism success".

## Description



- Pa fath o gwch yw hwn?
- Sut mae'r cwch yn cael ei godi o'r dŵr a'i symud i iard gychod?
- Pam y gallai fod angen tynnu'r cwch o'r dŵr?
- Sut fydddech chi'n disgrifio'r arfordir ar y pwynt hwn?
- Pa fathau eraill o gychod sy'n defnyddio'r harbwr hwn?

## Understanding Welsh

### Castell Coch

Etifeddodd trydydd Ardalydd Bute ystâd helaeth ei deulu pan oedd yn faban ac, erbyn iddo adael Rhydychen, soniwyd mai ef oedd y dyn cyfoethocaf yn y byd. Etifeddwyd ei gyfoeth gan yr ail Ardalydd Bute, a adeiladodd ddociau Caerdydd.

Roedd y pensaer a'r dylunydd William Burges yn fab i beiriannydd sifil llwyddiannus iawn, a'i gwmni'n enwog am adeiladu'r arglawdd yn San Steffan.

Roedd y ddau ddyn, a gyfarfu ym 1865, yn wahanol iawn. Roedd Bute yn ddifrifol a meudwyaidd, a Burges yn llawn mynd ac yn gymdeithasol. Ond roeddent yn rhannu cryn frwdfrydedd dros bensaernïaeth a chelf ganoloesol. O fewn blwyddyn o'u cyfarfod cyntaf, roedd Burges wedi llunio adroddiad yn egluro sut y gellid gwella Castell Caerdydd â thŵr a gardd ffos wedi'i datgloddio.

Dim ond dair blynedd yn ddiweddarach, trodd Burges ei sylw at Gastell Coch. Roedd y castell, ar ochr bryn yn edrych allan dros Cwm Taf, yn adfeilion. Awgrymodd ddau gam posibl ymlaen. Yn gyntaf – gadael yr adfeilion fel ag yr oeddent. Ac yn ail – eu hadfer i fod yn breswylfa wledig i fyw ynddi'n achlysurol yn ystod yr haf.

Roedd yn sicr o ddigwydd. Roedd yn obsesiwn gan yr ardalydd. Aeth Burges ati i greu ffantasi canoloesol mawreddog a adeiladwyd ar sail dau dŵr mawr a neuadd urddasol caer Gilbert de Clare o'r 13eg ganrif.

Ailadeiladodd y porthdy, cododd uchder y tyrau a rhoes iddynt doeau conigol gyda cheiliogod gwynt gilt-copr ar eu pennau. Gosododd rodfa ben mur a galeri ymladd o bren. Ond roedd yr ailgread dilys hwn yn dal i gynnwys pob cyfleustra modern, gan gynnwys gwres canolog.

Pan fu farw Burges yn sydyn ym 1881, dim ond y neuadd wledda oedd wedi'i haddurno a'i dodrefnu'n llawn. Gadawyd y gwaith i griw o grefftwyr gwblhau'r ystafelloedd mwyaf goludog, gan gynnwys yr ystafell groeso gromennog anhygoel.

Ond efallai bod yr hwyl wedi gadael y prosiect pan fu farw William Burges. Nid oes cofnod ohono'n aros yng Nghastell Coch ar ôl 1881 ac ni orffennwyd rhai o'r ystafelloedd byth. Yn raddol, aeth yn segur a chafodd ei atafael i filwyr Prydeinig ac Americanaidd yn ystod yr Ail Ryfel Byd – un o farics mwyaf afradlon y byd, mae'n siŵr. Ers hynny, mae wedi cael ail wynt yn drysor cenedlaethol annwyl iawn, yn seren y byd ffilm a theledu ac yn lleoliad priodasau poblogaidd iawn. Daw dros 60 o barau bob blwyddyn i briodi yng nghanol delweddaeth wych yr ystafell groeso.

How wealthy was the third Marquess of Bute, and how did he obtain this wealth?

Mae'n debyg mai'r trydydd Ardalydd oedd y dyn cyfoethocaf yn y byd. Etifeddodd ei gyfoeth gan ei dad, ail Ardalydd Bute, a adeiladodd a gweithredodd dociau Caerdydd.

How were the personalities of the Marquess of Bute and William Burges different?

Roedd yr Ardalydd yn berson difrifol a oedd yn hoffi bod ar ei ben ei hun, tra bod William Burgess yn gymeriad bywiog a chymdeithasol.

Where is Castell Coch, and in what condition was it before the Marquess began his project?

Mae Castell Coch ar fryn uwchben Cwm Taf. Roedd y castell yn adfail pan ddechreuodd yr Ardalydd ei adfer.

What use did the Marquess wish to make of Castell Coch?

Roedd yr Ardalydd yn dymuno adfer Castell Coch i'w ddefnyddio fel preswylfa wledig lle gallai aros yn ystod yr haf o bryd i'w gilydd.

What architectural style was used in the project, and what features were created for the castle?

Roedd yr Ardalydd eisiau creu castell mewn arddull ganoloesol. Dyluniodd Burgess ddau dwr crwn gyda thoeau conigol, a chwrt canolog gydag oriel bren yn edrych i lawr arno.

Why was the castle never fully completed?

Pan fu farw William Burgess yn sydyn ym 1881, collodd yr Ardalydd ei frwdfrydedd dros y prosiect. Roedd crefftwyr yn gweithio ar rannau o'r castell, ond ni chwblhawyd rhai o'r ystafelloedd erioed.

What happened to the castle after the time of the third Marquess of Bute?

Ni ddefnyddiwyd y castell nes iddo ddod yn farics i filwyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yn fwy diweddar, mae wedi'i adfer ac mae bellach ar agor i'r cyhoedd.

What special uses are made of the castle at the present day?

Mae'r castell wedi ymddangos mewn dramâu ffilm a theledu, ac mae'n lleoliad poblogaidd ar gyfer priodasau.

## Story board

### Cader Idris

1: Cader Idris is one of the highest mountains in central Wales. It rises above the Tal y Llyn valley, with its long narrow lake.

Mae Cader Idris yn un o fynyddoedd uchaf yng nghanolbarth Cymru. Mae'n esgyn uwchben dyffryn Tal y Llyn, gyda'i llyn hir cul.



2: The route up Cader Idris from the Tal y Llyn valley begins with a steep path through woodlands. The path climbs alongside a series of waterfalls.

Mae'r llwybr i fyny Cader Idris o ddyffryn Tal y Llyn yn cychwyn gyda llwybr serth drwy goetiroedd. Mae'r llwybr yn dringo ochr yn ochr â chyfres o raeadrau.



3: The path reaches the upland basin of Cwm Cau. Around the lake are huge cliffs cut by a glacier during the Ice Age.

Mae'r llwybr yn cyrraedd basn ucheldir Cwm Cau. O amgylch y llyn mae clogwyni anferth a dorrwyd gan rewlif yn ystod Oes yr Iâ.



4: The route to the summit continues along the rocky ridge above Cwm Cau.

Mae'r llwybr i'r copa yn parhau ar hyd y gefn greigiog uwchben Cwm Cau.



5: Other routes to the summit run from the Mawddach valley on the north of the mountain. The most exciting is Fox's Path, which first climbs to Llyn y Gader.

Mae llwybrau eraill i'r copa yn rhedeg o ddyffryn Mawddach ar ochr ogleddol y mynydd. Y mwyaf cyffrous yw Fox's Path, sy'n dringo yn gyntaf i Llyn y Gader.



6: The climb then continues up a slope of loose blocks of scree to reach the mountain summit.

Yna mae'r ddringfa'n parhau i fyny llethr o flochiau rhydd o sgri i gyrraedd copa'r mynydd.



7: The summit plateau of Cader Idris provides spectacular views of the Tal y Llyn and Mawddach valleys, and across the sea to the Llyn peninsula and Ireland.

Mae llwyfandir copa Cader Idris yn cynnig golygfeydd godidog o ddyffrynnoedd Tal y Llyn a Mawddach, ac ar draws y môr i Benrhyn Llŷn ac Iwerddon.



# 22 Trawsfynydd power station

## Language notes

In this section will look in a little more depth at **impersonal** or **passive** forms, which were introduced in an earlier session.

An impersonal or passive verb tense is used when we describe an event happening to a person or thing, rather than the person or thing carrying out the action directly.

Short form verb tenses can be used. For example:

**Atgyweiriwyd y car ar ôl y ddamwain.**

The car was repaired after the accident

**Talir y staff bob dydd Gwener.**

The staff are paid each Friday.

Long form passive verb tenses make use of the verb **cael** (to have).

Two variants of the past tense of **cael** are in use, one more commonly heard in the north of Wales and the other in the south.

	Northern variant	Southern variant
I had	<b>Ces i</b>	<b>Ces i</b>
You had	<b>Cest ti</b>	<b>Cest ti</b>
He/she had	<b>Caeth o/hi</b>	<b>Cafodd e/hi</b>
We had	<b>Caethon ni</b>	<b>Cawson ni</b>
You had	<b>Caethoch chi</b>	<b>Cawsoch chi</b>
They had	<b>Caethon nhw</b>	<b>Cawson nhw</b>

Either variant is equally acceptable.

The long form passive is created by use of a past tense of **cael** in conjunction with a verb noun:

**Cafodd y tŷ ei adeiladu'r llynedd.**

or **Caeth y tŷ ei adeiladu'r llynedd.**

The house was built last year.

The present and future passive can be created in two ways. The first is to combine a short form future tense of **cael** with a verb noun:

**Ceith lorïau eu dadlwytho yma.**

Lorries are unloaded here.

**Cewch chi eich dewis am y tîm.**

You will be selected for the team.

The alternative is to use a long form present or future tense of **cael** in conjunction with a verb noun:

**Mae'r cyfarfod yn cael ei ohirio.**

The meeting is postponed.

**Bydd y ffordd yn cael ei ailagor yfory.**

The road will be reopened tomorrow.



Other passive tenses can be created using long form tenses of **cael**, for example:

had been...

**Roedd gwelliant wedi cael ei ddisgwyl.**

An improvement had been expected.

would be...

**Byddai arian yn cael ei gasglu ar gyfer y capel.**

Money would be collected for the chapel.

should have been...

**Dylai bwyd wedi cael ei ddarparu.**

Food should have been provided.

Passive sentences often use a phrase '**cael ei...**' or similar, which includes a pronoun. In these cases, it is possible to omit the word '**cael**', for example:

**Mae'r cegin yn cael ei pheintio.**

can be written as:

**Mae'r cegin ei pheintio.**

The kitchen is painted.

**Mae'r lawnt wedi cael ei thorri.**

becomes:

**Mae'r lawnt wedi ei thorri.**

The lawn has been cut.

As an alternative to using an active verb, we can write in the passive and then state the person or thing carrying out the action by means of the word '**gan**':

**Ysgrifennodd y rheolwr yr adroddiad.**

The manager wrote the report.

becomes

**Ysgrifennwyd yr adroddiad gan y rheolwr.**

The report was written by the manager.

**Bydd yr heddlu yn holi'r tystion.**

The police will interview the witnesses.

becomes

**Bydd y tystion yn cael eu holi gan yr heddlu.**

The witnesses will be interviewed by the police.

## Treigladau

We will review a number of situations in which prepositions are used, most of which require treigladau to be applied. The words affected by treigladau are underlined.

Some variations occur between English and Welsh language usage. We will begin with English prepositions, and consider how these are translated into Welsh in different situations.

## FOR

to get or collect - **am** + treglad meddal

**Aeth Siân i'r archfarchnad am fwyd ar ôl gorffen gwaith.**

Siân went to the supermarket for food after finishing work.

for a period of time - **am** + treglad meddal

**Arhoson ni yn y bwthyn am bythefnos.**

We stayed in the cottage for a fortnight.

in exchange for - **am** + treglad meddal

**Gwnes i dalu deg punt am docyn cyngerdd.**

I paid ten pounds for a concert ticket.

for an occasion - **i** + treglad meddal

**Mae cawl a brechdannau i ginio.**

There is soup and sandwiches for lunch.

to be received by - **i** + treglad meddal

**Mae'r wybodaeth i fyfyrwyr peirianeg.**

The information is for engineering students.

for carrying out a task - **at** + treglad meddal

**Mae cyllell at dorri llysiau yn hongian ar y wal.**

There is a knife for cutting vegetables hanging on the wall.

on behalf of - **dros** + treglad meddal

**Mynychodd Mari y cyfarfod dros gydweithiwr a oedd yn sâl.**

Mari attended the meeting for a colleague who was ill.

for the reason of - **er** + treglad meddal

**Daeth yn ôl i Gymru er gariad ei famwlad.**

He came back to Wales for love of his homeland.

in preparation for - **ar gyfer** (no treglad required)

**Gwnaethon ni balu'r ardd ar gyfer plannu blodau.**

We dug the garden for planting flowers.

in favour of - **o blaid** (no treglad required)

**Ydych chi o blaid dysgu plant yn ddwyieithog?**

Are you for teaching children bilingually?

corresponding to - **am** + treglad meddal

**Mae dau deulu tlawd am bob teulu cyfoethog.**

There are two poor families for each rich family.

## FROM

from a location - **o** + treglad meddal

**Daw'r caws hwn o Gaerffili.**

This cheese is from Caerphilly.

from a person - **oddi wrth** + treglad meddal

**Derbyniodd llythyr oddi wrth feddyg.**

He received a letter from a doctor.

react against - **rhag** (no treigladd required)

**Gwnaethon nhw guddio rhag cymdogion blin.**

They hid from angry neighbours.

from on - **oddi ar** + treglad meddal

**Lansiwyd y cwch oddi ar draeth.**

The boat was launched from a beach.

## BY

in the vicinity of - **yn ymyl** (no treigladd required)

**Mae ei swyddfa yn ymyl gorsaf reilffordd.**

His office is by a railway station.

near - **ger** (no treigladd required)

**Roedd y ceffyl yn sefyll ger mynedfa i'r cae.**

The horse was standing by the entrance to the field.

alongside - **wrth** + treglad meddal

**Roedd y bagiau wrth gar y tu allan i'r gwesty.**

The bags were by a car outside the hotel.

written by - **gan** + treglad meddal

**Mae'r straeon gan lowyr a oedd yn gweithio yn y pwll.**

The stories are by miners who were working in the pit.

by means of - **drwy** + treglad meddal

**Roedd y felin ei phweru drwy ddŵr o nant.**

The mill was powered by water from a stream.

by a time - **erbyn** (no treigladd required)

**Bydd y siop ar gau erbyn pump o'r gloch.**

The shop will be closed by five o'clock.

by transport - **ar** + treglad meddal

**Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn mynd i'r coleg ar fws.**

Most students go to the college by bus.

## TO

to a place - **i** + treglad meddal

**Rydw i'n mynd i Gaerdydd yfory.**

I am going to Cardiff tomorrow.

to a person - **at** + treglad meddal

**Rhaid i chi riportio'r ddamwain at reolwr.**

You must report the accident to a manager.

in order to - **i** + treglad meddal

**Aethon ni i'r farchnad i brynu ffrwythau.**

We went to the market to buy fruit.

as far as - **at** + treglad meddal

**Mae'r trêrn yn mynd at Ferthyr Tudful.**

The train goes to Merthyr Tydfil.

towards - **at** + treigladd meddal

**Dechreuodd yr orymdaith gerdded at ganol y dref.**

The procession began walking to the town centre.

### ABOUT

approximately - **tua** + treigladd llaes

**Mae tua phedair milltir i'r pentref.**

It is about four miles to the village.

around - **o amgylch** or **o gwmpas** (no treigladd required)

**Roedd coed wedi'u gwasgaru o amgylch y parc.**

There were trees scattered about the park.

concerning - **am** + treigladd meddal

**Derbyniodd yr heddlu adroddiad am bobl yn achosi difrod.**

The police received a report about people causing damage.

on the point of - **ar** + treigladd meddal

**Roedd y grŵp ar gychwyn ar eu taith.**

The group were about to begin their journey.

### WITH

with a person - **gyda** + treigladd llaes

**Mae'n gweithio gyda chydweithiwr.**

He is working with a colleague.

with a tool or instrument - **â** + treigladd llaes

**Seiniwyd y larwm â thrymped.**

The alarm was sounded with a trumpet.

containing - **â** + treigladd llaes

**Hoffech chi frechdan â chaws?**

Would you like a sandwich with cheese?

### Idioms

In this section we give a selection of commonly used idioms which conjugate to produce for different versions for 'you', 'he/she', 'we', 'they':

**wrth fy modd** - delighted.

**Roedden nhw wrth eu boddau â'u tŷ newydd.**

They were delighted with their new house.

**ar ben fy hun** - alone.

**Roeddwn ni ar ein pennau ein hunain ar y mynydd.**

We were alone on the mountain.

**gwneud eu gorau glas** - did his very best.

**Gwnaethoch chi eich gorau glas yn y gystadleuaeth.**

You did your very best in the competition.

**â'i wynt yn ei ddwrn** - out of breath

**Roedd y cystadleuwyr â'u gwynt yn eu dwrn ar ddiwedd y ras.**

The competitors were out of breath at the end of the race.

**ar ben ei dennyn** - at the end of his tether, at his limit

**Roedd Jane ar ben ei thennyn ar ôl y ddadl.**

Jane was at the end of her tether after the argument.

**llygad ei lle** - perfectly correct

**Rydych chi yn llygad eich lle ynglŷn â'r penderfyniad.**

You're exactly right about the decision.

**nerth ei draed** - at full speed

**Rhedais i nerth fy nhraed am y bus.**

I ran as fast as I could for the bus.

**gwybod ei bethau** - knows his stuff

**Mae'r darlithwyr yn y coleg yn gwybod eu pethau.**

The lecturers in the college know their stuff..

## Sentences

A ddangoswyd y llun i chi?

Was the picture shown to you?

Dywedwyd wrth bobl i gyrraedd yn gynnar.

People had been told to arrive early.

Gwrthodwyd ei thocyn gan yrrwr y bus.

Her ticket was refused by the bus driver.

Ni chawson nhw eu gweld yn yr adeilad.

They were not seen in the building.

Roedd digon ohonyn nhw wedi'u gadael ar y bwrdd.

Plenty of them had been left on the table.

Cuddiwyd yr allweddi yn y cwpwrdd.

The keys were hidden in the cupboard.

Os dringwch yn yr hen chwarel, cewch eich anafu.

If you climb in the old quarry, you will be injured.

Mae'r ffermwr yn ddig oherwydd bod y giât wedi'i gadael ar agor.

The farmer is angry because the gate has been left open.

Byddai'r gwaith adeiladu wedi'i orffen pe bai'r tywydd wedi bod yn braf.

The building work would have been finished if the weather had been fine.

Bydd fy hoff raglen yn cael ei dangos ar y teledu heno.

My favourite program will be shown on television tonight.

Rwyf wedi archebu gyda'r bwyty i ginio am un o'r gloch.

I have booked with the restaurant for lunch for one o'clock.

Cadwch yn dawel rhag ofn ein bod ni'n cael ein darganfod.

Keep quiet in case we are discovered.

Gwnaethon ni gwyno at reolwr y gwesty ac i'r cwmni teithio.

We complained to the hotel manager and to the travel company.

Mae Abermaw yn borthladd bach prysur a ddefnyddir gan gychod hwylio.

Barmouth is a small busy port used by sailing boats.

Ar ôl gadael y coleg gofynnwyd iddi hi weithio yn yr ysbyty.

After leaving college she was asked to work in the hospital.

Pan oedd hi'n blentyn aethpwyd â hi i'r Eidal ar wyliau.

When she was a child she was taken to Italy on holiday.

Enillwyd y gystadleuaeth gan ffermwr o Aberhonddu.

The competition was won by a farmer from Brecon.

Cesglir gwastraff i'w ailgylchu ddydd Iau.

Waste for recycling is collected on Thursday.

Sefydlwyd amgueddfa werin ym mhentref Sain Ffagan.

A folk museum was established in the village of St Fagans.

Byddai wedi cael ei wahodd pe na bai'r digwyddiad wedi'i ganslo.

He would have been invited if the event had not been cancelled.

## Article: Trawsfynydd power station



Yn lleoli ychydig oddi ar briffordd yr A470 trwy Eryri, mae Trawsfynydd yn bentref bach nodweddiadol Cymreig.

Located just off the A470 main road through Snowdonia, Trawsfynydd is a typical small Welsh village.

Gerllaw, fodd bynnag, mae'r ddau adeilad adweithydd gorsaf bŵer niwclear Trawsfynydd.

Nearby, however, are the two reactor buildings of Trawsfynydd nuclear power station.

Dechreuodd y gwaith adeiladu ym 1959 ac agorwyd yr orsaf gan y Frenhines ym 1965.

Construction began in 1959 and the station was opened by the Queen in 1965.

Yn ystod y gwaith adeiladu, cyflogwyd llawer o weithwyr o'r ardal leol.

During construction, many workers were employed from the local area.

Gallai safle mewn mynyddoedd anghysbell yn ymddangos yn rhyfedd pan fydd y mwyafrif o orsafoedd pŵer niwclear wedi'u lleoli ar yr arfordir.

A site in remote mountains may seem surprising when most nuclear power stations are located on the coast.

Fodd bynnag, roedd llyn mawr y gellid ei ddefnyddio i gyflenwi dŵr ar gyfer boeleri'r orsaf bŵer.

However, there was a large lake which could be used to supply water for the power station boilers.

Mae rheilffordd yn mynd heibio'r safle, gan ganiatáu i danwydd niwclear gael ei ddanfôn ar drên o ffatri yn Sellafield, a gweddillion tanwydd yn cael eu dychwelyd yno i'w hailbrosesu.

A railway passes the site, allowing nuclear fuel to be delivered by train from a factory in Sellafield, and spent fuel returned there for reprocessing.

Am fwy nag 20 mlynedd bu'r orsaf bŵer yn cynhyrchu trydan, ac yn parhau i gyflogi staff o'r ardal leol.

For more than 20 years the power station generated electricity, and continued to employ staff from the local area.

Llwythwyd cynhwysyddion tanwydd gan ddefnyddio peiriant mawr a allai symud o gwmpas ar wyneb uchaf yr adweithydd.

Fuel containers were loaded using a large machine which could move around on the top surface of the reactor.

Llifodd carbon deuocsid trwy'r adweithydd poeth, yna cynhesu dŵr i gynhyrchu stêm.

Carbon dioxide flowed through the hot reactor, then heated water to produce steam.

Cludwyd y stêm i neuadd y tyrbin, lle roedd peiriannau enfawr yn cynhyrchu trydan.

The steam was carried to the turbine hall, where huge machines generated electricity.

Cymerwyd hen gynwysyddion tanwydd o'r adweithydd a'u gollwng i byllau dŵr oeri, lle cawsant eu storio o dan y dŵr nes eu bod yn cael eu hanfon i'w hailbrosesu.

Old fuel containers were taken from the reactor and dropped into cooling water ponds, where they were stored under the water until they were sent for reprocessing.

Ers i'r orsaf bŵer gau yn y 1990au, mae gwaith wedi bod yn digwydd i glirio'r safle a throsglwyddo gwastraff ymbelydrol i'w storio'n ddiogel.

Since the power station closed in the 1990's, work has been taking place to clear the site and transfer radioactive waste into safe storage.

Mae'r llyn sy'n cyflenwi'r orsaf bŵer hefyd wedi'i gysylltu gan lein beipen â gorsaf bŵer trydan dŵr yn y dyffryn islaw ym Maentwrog.

The lake supplying the power station is also connected by pipeline to a hydroelectric power station in the valley below at Maentwrog.

Mae cynlluniau bellach yn cael eu hystyried ar gyfer gosod adweithydd niwclear llai newydd ar y safle.

Plans are now being considered for installing a new smaller nuclear reactor on the site.

Mae barn y cyhoedd ei rhannu ynghylch agor gorsaf ynni niwclear newydd yn Trawsfynydd.

Public opinion is divided about opening a new nuclear power station in Trawsfynydd.

Byddai'r orsaf bŵer yn darparu cyflogaeth, ac yn cynhyrchu trydan heb gynhyrchu nwyon tŷ gwydr.

The power station would provide employment, and would generate electricity without producing greenhouse gases.

Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch diogelwch yn dilyn damwain Chernobyl.

However, there are concerns about safety following the Chernobyl accident. Gall costau prosesu a storio gwastraff niwclear wneud pŵer niwclear yn ddrytach nag opsiynau eraill, megis ynni gwynt a llanw.

The costs of processing and storing nuclear waste may make nuclear power more expensive than other options, such as wind and tidal energy.

## Speaking and writing challenge

**Discuss the advantages and disadvantages of generating a significant proportion of a country's electricity from nuclear power.**

Example article:

Mae ynni niwclear yn ffynhonnell bwysig o drydan mewn llawer o wledydd.

Yn Ffrainc, mae mwyafrif y trydan yn cael ei gynhyrchu o ynni niwclear.

Fodd bynnag, mewn rhai gwledydd eraill fel yr Almaen mae yna symud oddi wrth ynni niwclear.

Prif fantais ynni niwclear yw ei fod yn cynhyrchu trydan heb gynhyrchu nwyon tŷ gwydr.

Mae hyn yn bwysig i leihau cynhesu byd-eang, cynnydd yn lefel y môr, ac effeithiau niweidiol newid hinsawdd eraill.

Mae gorsafoedd ynni niwclear yn fwyaf effeithlon os ydynt yn cynhyrchu trydan am 24 awr bob dydd.

Os nad oes angen yr holl drydan, er enghraifft yn ystod y nos, yna efallai y caiff ei anfon i orsaf trydan dŵr storfa bwmp i storio'r ynni.

Mae'r prif ddadleuon yn erbyn ynni niwclear yn ymwneud â diogelwch a chost.

Mae damweiniau niwclear difrifol wedi digwydd yn Chernobyl a Fukushima.

Yn y ddau achos, bu'n rhaid i bobl symud i ffwrdd o'u cartrefi oherwydd y perygl o ymbelydredd.

Dywed gwyddonwyr a pheirianwyr fod adweithyddion niwclear mwy diogel wedi'u datblygu, ond mae'r siawns fach o ddamwain yn parhau.

Mae gorsafoedd ynni niwclear yn ddrud iawn i'w hadeiladu.

They would go for walks when the weather was fine.

Past

**Bues i'n siarad ag yr heddlu ynglŷn â'r ddamwain.**

I spoke to the police about the accident.

**yn** is abbreviated to '**n**' after a vowel. Verb nouns never mutate after **yn**.

However, **yn** is not used in long form '**cwmpasog**' tenses which include **wedi**. For example:

Perfect tense

**Rydyn ni wedi darllen eich adroddiad.**

We have read your report.

Pluperfect tense

**Roedden nhw wedi cerdded o amgylch y dref cyn cael cinio.**

They had walked around the town before having lunch.

A tense of '**bod**' may stand on its own without an accompanying verb noun, for example when followed by a noun or adjective:

**Mae fy ffrind yn feddyg.**

My friend is a doctor.

**Roedd y plant yn hapus.**

The children were happy.

In these cases, the bod tense is again followed by '**yn**'.

Adjectives mutate after **yn** except when beginning with '**rh**' or '**ll**'.

For example:

**Roedden ni'n gyffrous ac yn bryderus pan aethon ni ar y roller coaster.**

We were excited and anxious when we went on the roller coaster.

**Mae'r dillad yn y siop yn rhad.**

The clothes in the shop are cheap.

**Bydd y prosiect yn llwyddiannus.**

The project will be successful.

Nouns mutate after **yn** except when beginning with '**rh**' or '**ll**'. For example:

**Mae'n feddyg ac yn llawfeddyg.**

He is a doctor and surgeon.

**Roedd y cystadleuwyr yn rhedwyr ac yn feicwyr.**

The competitors were runners and cyclists.

The **bod** tense may be in an inserted clause which refers back to the subject of the sentence.

**Y bwyty y mae John yn ei brynu ydy yn y pentref.**

The café that John is buying is in the village.

The subject in this example is '**y bwyty**', and is represented by the pronoun '**ei**'. '**yn**' is added before the pronoun.

It is possible to omit the pronoun representing the subject, which is present mainly for emphasis. However, **yn** would still be retained:

**Y bwyty y mae John yn prynu ydy yn y pentref.**

The café that John is buying is in the village.

Other examples are:

**Mae'r gôt yr oeddech chi'n ei gwisgo yn y lolfa.**

**Mae'r gôt yr oeddech chi'n ei gwisgo yn y lolfa.**

The coat that you were wearing is in the lounge.

**Yr arholiad y byddan nhw'n ei sefyll bydd ym mis Mehefin.**

**Yr arholiad y byddan nhw'n sefyll bydd ym mis Mehefin.**

The examination that they will sit will be in June.



The grammatical marker 'yn' is not inserted before prepositions. (This should not be confused with the preposition 'yn'). For example:

**Mae'r dref dros y mynydd yn y dyffryn.**

The town is over the mountain in the valley.

Other examples are:

**Roedd yr allwedi ar y bwrdd dan y ffenestr.**

The keys were on the table under the window.

**Byddwn ni uwchben y cymylau mewn awyren.**

We will be above the clouds in an aircraft.

'yn' is not used with the verb nouns **eisiau** and **angen**:

**Rydw i eisiau cerdded ar hyd y traeth.**

I want to walk along the beach.

**Roedd angen iddyn nhw agor y ffenestri.**

They needed to open the windows.

'yn' is not used with the verb noun **biau** meaning 'to own'.

Notice the alternative third person '**sy**' form of the verb '**bod**' is used with **biau**:

**Mae'n ddyn busnes cyfoethog sy biau'r tŷ ar y clogwyn.**

It is a rich businessman who owns the house on the cliff.

'yn' is not used with the adverb '**mor**', meaning 'so':

**Mae Portmeirion mor anarferol gyda'i arddull Eidalaidd o adeiladau.**

Portmeirion is so unusual with its Italian style of buildings.

## Treigladau

In this section we continue the summary of situations in which a **treiglad meddal** (soft mutation) is used.

A **treiglad meddal** is required in various sentence patterns involving verbs:

A treiglad meddal is applied after the particle '**Fe**' (South Wales) or '**Mi**' (North Wales).

**Fe ddringodd y mynydd ac fe gyrhaeddodd y copa.**

He climbed the mountain and reached the summit.

**Mi redaf i sawl milltir bob bore yn yr haf.**

I run several miles every morning in the summer.

Negative cases of short form '**cryno**' verbs take a mixed mutation:

- **treiglad llaes** (aspirate mutation) is applied to verbs beginning with the letters **c, p** or **t**;
- **treiglad meddal** is applied where possible for other initial letters.

Examples are:

**Theithiais i ddim i Gaerdydd ar fws.**

I did not travel to Cardiff by bus.

(teithiais)

**Ni chyfarfu â'i ffrindiau yn y dafarn.**

He did not meet his friends in the pub.

(cyfarfu)

**Wnaethoch chi ddim prynu tocyn i Dafydd.**

You didn't buy a ticket for Dafydd. (gwnaethoch)

**Gerddan nhw ddim o amgylch y llyn.**

They will not walk around the lake. (cerddan)

A **treigladd laes** (for letters **c, p** or **t**) or **treigladd meddal** is also applied to negative responses to questions:

**A ganwch chi yn y cyngerdd? Na chanaf.**

Will you sing in the concert? No, I will not sing. (canaf)

**Wnewch chi fynd â'r llythyr hwn i swyddfa'r post? Na wnaaf.**

Will you take this letter to the post office? No, I will not. (gwnaf)

A **treigladd meddal** is applied to interrogative (question) cases of short form '**cryno**' verbs. For example:

**A goginiodd hi fwyd i'r ymwelwyr?**

Did she cook food for the visitors? (coginiodd)

**Brynaist ti unrhyw beth yn y siop honno?**

Did you buy anything in that shop? (prynaist)

**A ddaethon nhw â'r arian?**

Did they bring the money? (daethon)

A **treigladd meddal** is applied to the word immediately following a command.

**Agorwch ddrws a ffoniwch feddyg!**

Open a door and call a doctor! (drws, meddyg)

**Pryna docyn a siarada Gymraeg!**

Buy a ticket and speak Welsh! (tocyn, Cymraeg)

The next set of occurrences of a **treigladd meddal** are related to sentence structure. They all follow the important rule:

A **treigladd meddal** is applied where possible to the first word following the subject of the sentence.

Simple sentences in Welsh follow the pattern VERB - SUBJECT - OBJECT

For example, using short form '**cryno**' tenses:

**Atgyweiriodd y ffermwr dractor.**

The farmer repaired a tractor. subject: **y ffermwr** object: **tractor**

**Pryniff y teulu dŷ yn y pentref.**

The family will buy a house in the village. subject: **y teulu** object: **tŷ**

With a long form '**cwmpasog**' tense, the subject is often inserted between the verb '**bod**' or '**gwneud**' and a verb noun.

For '**bod**' tenses, the subject is generally followed by '**yn**' which does not take a **treigladd**:

**Roedd Mr Jones yn golchi ei gar.**

Mr Jones was washing his car. subject: **Mr Jones**

However, '**gwneud**' tenses do not use '**yn**'. A **treigladd meddal** is applied to the verb noun following the subject:

**Gwnaeth y teulu yrru i'r arfordir.**

The family drove to the coast. subject: **y teulu** verb noun: **gyrru**

The rule that a treigladd meddal immediately follows the subject can be applied to other sentence patterns:

The subject may be omitted, but a **treigladd meddal** is still applied. For example:

**Dringodd fynydd yn Eryri.**

He climbed a mountain in Snowdonia. subject: [e...] omitted

**Dalwn fws am naw o'r gloch.**

We catch a bus at nine o'clock. subject: [ni...] omitted

The subject may be followed by a descriptive clause rather than a noun object,

**Rhedodd hi drwy'r cae gwenith**

She ran through the wheat field subject: **hi** preposition: **trwy**

However, the descriptive clause often begins with the word 'yn' which does not take a treigladd:

**Dechreuon ni yn gynnar yn y bore**

We began early in the morning subject: **ni**

In the interesting case of '**rhaid**', the sentence has an assumed subject which is the person or persons who must carry out the action. This assumed subject is then followed immediately by a **treigladd meddal**. For example:

**Rhaid i'r myfyrwyr gwblhau eu haseiniadau.**

The students must complete their assignments. assumed subject: **y myfyrwyr**

**Roedd yn rhaid iddi hi dalw bil y gwesty.**

She had to pay the hotel bill. assumed subject: **hi**

The treigladd meddal rule also applies to sentences using the short form verb **hoffi** ('to like'), where the subject is followed immediately by a verb noun.

**Hoffwn i fynd i'r sinema heno.**

I would like to go to the cinema tonight. subject: **i** verb noun: **mynd**

**Hoffan nhw adael ar ôl y pryd o fwyd.**

They would like to leave after the meal. subject: **nhw** verb noun: **gadael**

The treigladd meddal rule is applied to sentences using the '**dylwn**' (I should...) pattern. The verb noun following the subject receives the treigladd:

**Dylwn i ofyn am help gyda'r prosiect.**

I should ask for help with the project. subject: **i** verb noun: **gofyn**

**Dylech gerdded i lawr i'r harbwr.**

You should walk down to the harbour. subject: [chi..] omitted verb noun: **cerdded**

The sentence pattern '**mae yna...**' (there is...) is used to indicate that a person or object is present. '**yna**' is the subject, so the following word takes a treigladd meddal:

**Mae yna dorfeydd o bobl ar y traeth a'r promenâd.**

There are crowds of people on the beach and promenade. (**torfeydd**)

**Roedd yna lawer o ffatrïoedd yn yr hen ddyddiau.**

There were a lot of factories in the old days. (**llawer**)

Another way of indicating a person or object is present is to use **dyma**, **dyna** or **dacw** ('here is...', 'there is...', 'over there is...'). These expressions are actually contractions which combine a verb and subject.

A treigladd meddal is therefore applied to the word which immediately follows:

**Dyma orsaf y rheilffordd a dyna lwybr i ganol y dref.** (gorsaf, llwybr)  
Here is the railway station and there is a path to the town center.

A treigladd meddal is used in several sentence patterns involving expressions of time.

A treigladd is applied to days of the week where the meaning is 'on a particular day':

**Byddwn yn mynd i Lundain ddydd Llun ac yn dod yn ôl ddydd Gwener.** (dydd)  
We will go to London on Monday and come back on Friday.

A treigladd meddal is also applied for time clauses indicating when an action occurs.

**Cwblhaodd ei gwrs hyfforddi ddeng mlynedd yn ôl.** (deng)  
He completed his training course ten years ago.

The behaviour of the word 'gan' ('with..') is interesting. 'gan' causes a treigladd meddal in the normal way when it is used as a simple preposition:

**Ysgrifennwyd y ddrama gan fyfyrwyr yn y coleg.** (myfyrwyr)  
The play was written by students in the college.

However, 'gan' can also be used in sentence patterns to indicate the possessor of some property or object. In this case, a treigladd meddal is also applied to the object possessed:

**Mae gan fyfyrwyr y brifysgol ddosbarthiadau bob dydd.** (myfyrwyr, dosbarthiadau)  
The university students have classes every day.

**Mae gan deulu Jane Jones dŷ ger yr afon.** (teulu, tŷ)  
The family of Jane Jones have a house near the river.

A treigladd meddal is applied in several situations involving comparisons.

A treigladd follows the words 'cyn' and 'mor' when used with the meaning 'as...':

**Nid yw'r llwybr hwn i fyny'r mynydd mor beryllus â'r llwybr hwnnw.** (peryllus)  
This route up the mountain is not as dangerous as that route.

**Dydy'r caffi ddim cyn ddrud â'r bwyty.** (drud)  
The cafe is not as expensive as the restaurant.

**Mae'r gegin mor boeth â'r anialwch.** (poeth)  
The kitchen is as hot as the desert.

A treigladd meddal is applied after 'yn' when this is used in a comparison expression:

**Bydd yr adeilad newydd yn dalach na Thŵr Eiffel.** (talach)  
The new building will be taller than the Eiffel Tower.

A treigladd meddal is applied to an adjective after 'y' when this indicates a superlative for a feminine noun. This does not apply for masculine nouns.

**Y llyfrgell yw'r fwyaf yng Nghymru.** (mwyaf)  
The library is the largest in Wales.

**Y gwesty yw'r mwyaf yng Nghymru.**  
The hotel is the largest in Wales.

## Idioms

In this section we will review a selection of idioms which use the word 'yn':

**yn achos:** in the case of

**Yn achos y bont droed, mae angen atgyweiriadau brys.**  
In the case of the foot bridge, urgent repairs are needed.

**yn ei anterth:** at its peak

**Roedd chwarela llechi yn ei anterth yn yr 1880au.**  
Slate quarrying was at its peak in the 1880's.

**yn ei gefn:** behind his back

**Prynodd ddodrefn newydd yn ei gefn.**  
She bought new furniture behind his back.

**yn ei gwaed:** in her blood

**Roedden ni'n gwybod y byddai fe'n Aelod Seneddol oherwydd bod gwleidyddiaeth yn ei waed.**  
We knew he would be a Member of Parliament because politics was in his blood.

**yn ei hunfan:** motionless

**Safodd y lleidr yn ei hunfan pan ddaeth yr heddlu i mewn i'r tŷ.**  
The burgler stood motionless when the police entered the house.

**yn ei lle:** in place of..

**Roedd Huw yn rhy brysur, felly es i yn ei le.**  
Huw was too busy, so I went in his place.

**yn ôl ac ymlaen:** back and forth

**Mae'r trenau yn mynd yn ôl ac ymlaen rhwng y pwll glo a'r dociau.**  
The trains go back and forth between the coal mine and the docks.

**yn ôl pob sôn:** according to what people say

**Yn ôl pob sôn, bydd tai newydd yn cael eu hadeiladu yn y pentref.**  
According to what people say, new houses will be built in the village.

**yn sgil:** following..., in the aftermath of...

**Bydd yn llawer o waith ailgychwyn y ffatri yn sgil y tân.**  
It will be a lot of work to restart the factory following the fire.

**yn y bôn:** basically

**Mae'n cwyno ond yn y bôn mae'n derbyn bod angen y rheolau.**  
He complains but basically he accepts that the rules are needed.

**yn y fan a'r lle:** immediately, there and then

**Ffoniodd a chyrhaeddodd y frigâd dân yn y fan a'r lle.**  
He phoned and the fire brigade arrived immediately.

**yn y pen draw:** eventually

**Yn y pen draw bydd yr hen eglwys ar y clogwyn yn cwmpo i'r môr.**  
Eventually the old church on the cliff will fall into the sea.

**yn ymyl:** close by, next to

**Mae'r stadiwm chwaraeon yn ymyl yr orsaf reilffordd.**

The sports stadium is next to the railway station.

**yn** can be used with a noun to represent the word 'as...', meaning '*actually as...*' or '**exactly as...**'.

The alternative Welsh word '**fel**' is also translated 'as...', but has the slightly different meaning of '**similar to...**' or '**like...**'.

**yn ffrindiau:** as friends

**Rydyn ni wedi aros yn ffrindiau ers i ni fod yn yr ysgol gyda'n gilydd.**

We have remained as friends since we were at school together.

**yn llanast:** as a mess

**Gadawodd y myfyrwyr yr ystafell yn llanast ar ôl y parti.**

The students left the room as a mess after the party.

**yn aelod:** as a member

**Rydw i wedi cael fy ethol yn aelod o'r pwyllgor.**

I have been elected as a member of the committee.

**yn anrheg:** as a present

**Gwnaethon ni roi'r car iddo fe yn anrheg ar gyfer ei ben-blwydd.**

We gave him the car as a present for his birthday.

**yn arbenigwr:** as an expert, specialist

**Penodwyd y darlithydd yn arbenigwr mewn mathemateg.**

The lecturer was appointed as an expert in mathematics.

'**yn**' can be used with a verb to represent '**into**' in the sense of '**become...**', '**change into...**' or '**make into...**'.

The alternative Welsh phrase '**i mewn**' can also be translated as '**into**', but usually in the sense of '**moving into...**' or '**travelling into...**'.

**yn pentwr:** into a pile

**Gwnaeth y coedwigwyr y boncyffion yn bentwr, yn barod i'w casglu.**

The foresters made the logs into a pile, ready to collect.

**yn gwlwm:** into a knot

**Clymodd y rhaff yn gwlwm i ddal polyn y babell.**

He tied the rope into a knot to hold the tent pole.

**yn ddarnau:** into pieces

**Rhwygodd y tocyn yn ddarnau a gweiddi'n ddig wrth y warden traffig.**

He tore the ticket into pieces and shouted angrily at the traffic warden.

**yn gylch:** into a circle

**Roedd y madarch yn tyfu yn gylch ar y lawnt.**

The mushrooms were growing into a circle on the lawn.

**yn deilchion:** into tiny fragments, smithereens

**Syrthiodd y jwg o'r ddresel a thorri'n deilchion.**

The jug fell from the dresser and broke into fragments.

**yn grwpiau:** into groups

**Ffurfiodd y cystadleuwyr yn grwpiau ar gyfer y cwis.**

The competitors formed into groups for the quiz.

## Sentences

Mae'r Parc Cenedlaethol yn paratoi i ailagor rhai ardaloedd i'r cyhoedd ddydd Llun.

The National Park is preparing to reopen some areas to the public on Monday.

Dechreuodd y tân yn gyflym ar lawr gwaelod siop wag.

The fire started quickly on the ground floor of a vacant shop.

Mae'r ardal yn boblogaidd ar gyfer y celfyddydau, bywyd nos ac adloniant.

The area is popular for the arts, nightlife and entertainment.

Rydyn ni'n gyfarwydd â rhaglenni teledu sy'n dangos pobl wrth eu gwaith.

We are familiar with television programs that show people at work.

Bydd yr alldaith y byddant nhw'n ymuno â hi yn digwydd yn yr haf.

The expedition that they will join will take place in the summer.

Roedd y chwareli llechi gerllaw wedi ehangu'n gyflym.

The nearby slate quarries had expanded rapidly.

Mae'r siop wedi gwneud yn dda oherwydd bod eu dodrefn o ansawdd uchel ond nid yn ddud.

The shop has done well because their furniture is high quality but not expensive.

Roedd hi'n disgrifio ac yn egluro beth ddigwyddodd yn y ffilm.

She was describing and explaining what happened in the film.

Mae gennym angen mwy o staff sy'n hyderus i weithio'n ddwyieithog.

We need more staff who are confident to work bilingually.

Ar un adeg roedd Porthmadog yn un o'r porthladdoedd prysuraf yn allforio llechi.

Porthmadog was once one of the busiest ports exporting slate.

Mae'r heddlu'n rhybuddio am beryglon syrthio i gysgu wrth yrru.

The police are warning of the dangers of falling asleep while driving.

Roedd mor annisgwyl gerdded ar hyd y traeth a dod o hyd i ogof gudd.

It was so unexpected to walk along the beach and find a hidden cave.

Mae'r cerflun wedi'i dynnu o'r adeilad yn dilyn protestiadau.

The statue has been removed from the building following protests.

Yn eu gwaith bob dydd mae wardeiniaid y parc cenedlaethol yn atgyweirio llwybrau'r Wyddfa.

In their work every day the national park wardens repair Snowdon's paths.

Mae trin data yn ddiogel ac yn effeithlon yn sgil bwysig i lawer o swyddi.

Handling data securely and efficiently is an important skill for many jobs.

Mae'r llyfr yn disgrifio sut y mae mewnfudwyr yn ymateb i ddysgu Cymraeg.

The book describes how immigrants respond to learning Welsh.

Mae gwyntoedd cryfion dros Gymru wedi arwain at ganghennau yn cwmpo oddi ar goed.

Strong winds over Wales have led to branches falling off trees.

Roedd data yn dangos cwmp yn nifer yr oriau gafodd eu gweithio.

Data showed a fall in the number of hours worked.

Bydd y flwyddyn academiaidd newydd yn cychwyn ym mis Medi, meddai'r Gweinidog.

The new academic year will begin in September, the Minister said.

Mae yna ganolfannau yn darparu gweithgareddau awyr agored megis beicio a dringo.

There are centres providing outdoor activities such as cycling and climbing.

## Article: Farming in Wales



Mae amaethyddiaeth wedi bod yn rhan fawr o economi Cymru, sy'n wlad wledig i raddau helaeth.

Agriculture has been a major part of the economy of Wales, which is largely a rural country.

Gyda dyfodiad y diwydiannau glo, haearn a llechi, daeth amaethyddiaeth yn llai pwysig wrth i bobl symud i drefi a dinasoedd.

With the arrival of the coal, iron and slate industries, agriculture became less important as people moved to the towns and cities.

Fodd bynnag, mae'r gyflogaeth a gynhyrchir gan ffermio yn sylweddol yng nghefn gwlad Cymru.

However, the employment generated by farming is significant in rural Wales.

Mae ffermwyr Cymru yn amddiffynwyr diwylliant, treftadaeth ac iaith Cymru.

Welsh farmers are protectors of Welsh culture, heritage and language.

Mae ffermydd yng Nghymru yn tueddu i fod yn fach ac yn gweithredu fel busnesau teuluol.

Farms in Wales tend to be small and operated as family businesses.

Rôl blaenaf y ffermwr yw fel cynhyrchydd bwyd, gan gefnogi'r diwydiant bwyd o bwys cenedlaethol.

The foremost role of the farmer is as a food producer, supporting the nationally important food industry.

Dim ond darn bach o'r tir mwy gwastad sy'n addas ar gyfer tyfu cnydau.

Only a small proportion of the flatter land area is suitable for growing crops.

Ymhlith y cnydau a dyfir yng Nghymru mae gwenith a haidd, gyda thatws newydd o benrhyn Gŵyr a Sir Benfro ar gael yn gynnar yn y tymor.

Amongst the crops grown in Wales are wheat and barley, with new potatoes from the Gower peninsula and Pembrokeshire available early in the season.

Mae gan Gymru hinsawdd fwyn, wlyb sy'n cynhyrchu ardaloedd mawr o laswelltir sy'n addas ar gyfer pori am laethyddiaeth a da byw.

Wales has a mild, wet climate producing large areas of grassland suitable for grazing for dairying and livestock.



Mae llaethyddiaeth yn digwydd ar borfa well mewn ardaloedd o iseldir.

Dairying takes place on better pasture in lowland areas.

Mae buchesi yn cael eu godro gan beiriant mewn parlyrau modern.

Herds are milked by machine in modern parlours.

Mae'r llaeth yn cael ei storio mewn tanc swmp rheweidiedig a'i gasglu gan dancer llaeth yn ddyddiol.

The milk is stored in a refrigerated bulk tank and collected by milk tanker daily.

Mae ffermio organig yn dod yn fwy a mwy pwysig, gyda chynhyrchu llaeth organig Cymru, cawsiau organig ac iogwrt.

Organic farming is becoming increasingly important, with the production of Welsh organic milk, organic cheeses and yoghurts.

Mae gwartheg a defaid yn cael eu cadw ar yr ucheldiroedd a thir mwy ymylol.

Cattle and sheep are kept on the uplands and more marginal land.

Mae'r mwyafrif o wartheg bellach yn cael eu cartrefu yn y gaeaf a'u prif borthiant yw silwair.

Most cattle are now housed in winter with their main feed being silage.

Da Duon Cymreig yw brid traddodiadol Cymru.

Welsh Black cattle are the traditional breed of Wales.

Mae'r gwartheg gwydn hyn yn gallu ffynnu ar borfa a rhostir o ansawdd gwael a gallant darparu llaeth a chig eidion.

These hardy cattle are able to thrive on poor quality pasture and moorland and can provide milk and beef.

Defnyddir llawer o'r tir uwch ar gyfer pori defaid, a chaniateir i ddefaid gwydn Mynydd Cymru grwydro'n rhydd.

Much of the higher land is used for sheep grazing, and the hardy Welsh Mountain sheep are allowed to roam free.

Mae'r defaid yn gwybod ble i bori ar wahanol adegau o'r flwyddyn a ble i gysgodi.

The sheep know where to graze at different times of year and where to shelter.

Fodd bynnag, mae incwm fferm o gynhyrchu bwyd wedi gostwng dros y blynyddoedd.

However, farm incomes from food production have fallen over the years.

Mae twristiaeth bellach wedi dod yn ffynhonnell incwm fferm bwysig yng nghefn gwlad ac ar hyd yr arfordir.

Tourism has now become an important source of farm income in the countryside and along the coast.

Bu gostyngiad yn nifer y bobl a gyflogir ar y tir, ac mae hen ffermdai wedi'u trosi'n llety hunanarlwyo.

There has been a decline in the number of people employed on the land, and old farmhouses have been converted into self-catering accommodation.

Mae ffynonellau incwm eraill yn cynnwys cynlluniau trydan dŵr bach, a datblygiadau ffermydd gwynt.

Other sources of income include small hydro electric schemes, and wind farm developments.

Mae llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynlluniau cymhorthdal i annog y ffermwyr i reoli eu tir mewn ffordd sy'n amgylcheddol gynaliadwy.

The Welsh government has introduced subsidy schemes to encourage the farmers to manage their land in an environmentally sustainable way.

Mae cynlluniau wedi annog creu pyllau a gwlyptiroedd, plannu coetir a chadw gwrychoedd, a gwella rheolaeth dŵr i osgoi llifogydd.

Schemes have encouraged the creation of ponds and wetlands, the planting of woodland and the preservation of hedgerows, and improving water management to avoid flooding.

## Speaking and writing challenge

**For an area with which you are familiar, describe any ways in which the use of the land has changed in the past century.**

Example article:

Mae Canolbarth Cymru yn ardal o lwyfandir ucheldirol a dyffrynnoedd.

Gall y tywydd fod yn wlyb iawn, a gall fod eira dwfn yn y gaeaf.

Ar wahân i'r dyffrynnoedd, ychydig bach o bobl sy'n byw yn yr ardal.

Mae llawer o'r ardal yn weundir gyda chorsydd mawn.

Cant o flynyddoedd yn ôl roedd y boblogaeth yn uwch, gyda nifer o fwyngloddiau plwm yn dal i weithredu.

Mae'r rhain bellach wedi cau, oherwydd costau uchel mwyngloddio yng Nghymru, a chyflenwadau rhatach o fwyn o dramor.

Ar yr adeg hon roedd mwy o ffermydd bach yn y rhanbarth.

Roedd gan ffermwyr fywyd caled iawn, gyda dim ond incwm bach o gadw defaid a gwartheg.

Byddent yn tyfu rhai llysiau a grawnfwydydd, ac yn cadw ieir a buwch odro i ddarparu bwyd i'w teulu.

Mae llawer o'r ffermydd bychain bellach wedi uno i greu ffermydd mwy.

Mae nifer y defaid sy'n cael eu cadw ar dir y mynydd wedi amrywio gyda phrisiau'r farchnad a maint taliadau amaethyddol gan y llywodraeth.

Bu newid mawr mewn defnydd tir tua'r 1960au gyda phlannu coedwigoedd mawr o gonwydd mewn rhannau o ganolbarth Cymru.

Y bwriad oedd cynhyrchu pren ar gyfer defnydd masnachol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu diddordeb o'r newydd mewn plannu coedwigoedd, fel ffordd o dynnu carbon deuocsid o'r atmosffer a rheoli newid hinsawdd.

Adeiladwyd cronfeydd dŵr mawr Clywedog a Nant y Moch yn y 1960au mewn dyffrynnoedd o amgylch Pumlumon.

Mae cronfa ddŵr Clywedog yn rheoli'r llif ar Afon Hafren, gan leihau llifogydd a sicrhau bod dŵr ar gael i lawr yr afon i bwmpio o'r afon i ddarparu dŵr yfed.

Mae cronfa ddŵr Nant y Moch yn cyflenwi dŵr i orsaf bŵer tydan dŵr Rheidol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o ffermydd gwynt mawr wedi'u hadeiladu ar rostiroedd canolbarth Cymru lle mae gwyntoedd cryfion o'r môr yn aml.

## Story



Yn oriau mân y bore, torrodd lleidr i mewn i dŷ John.

In the early hours of the morning, a burgler broke into John's house.

Aeth y lleidr i fyny'r grisiau, ond cafodd John ei ddeffro gan y sŵn.

The burgler went up the stairs, but the sound woke John.

Gwelodd John y lleidr a gafaelodd yn y peth agosaf i amddiffyn ei hun, sef bat criced.

John saw the burgler and grabbed the nearest thing to defend himself, which was a cricket bat.

Tynnodd y lleidr gyllell allan a dod tuag at John mewn ffordd fygythiol.

The burgler pulled out a knife and came towards John in a threatening way.

Tarodd John ef dros ei ben a syrthiodd y lleidr i lawr y grisiau.

John hit him over the head and the burgler fell down the stairs.

Gan feddwl bod y lleidr wedi marw, a heb eisiau unrhyw drafferth gyda'r heddlu, rhoddodd John y corff yn ei gar.

Thinking that the burgler was dead, and not wanting any trouble with the police, John put the body into his car.

Gyrrodd i'r afon fawr gerllaw a thafu'r corff i'r dŵr.

He drove to the large river nearby and threw the body into the water.

Achosodd sioc y dŵr oer i'r lleidr adennill ymwybyddiaeth a dechreuodd nofio.

The shock of the cold water caused the burgler to regain consciousness and he started to swim.

Ar y foment honno, daeth cwch modur i lawr yr afon, gan gario grŵp o deithwyr oedd yn cael parti swnllyd.

At that moment, a motor boat came down the river, carrying a group of passengers who were having a noisy party.

Roedd capten y cwch wedi meddwi ac ni welodd y person yn y dŵr, er bod yr afon wedi'i goleuo'n ddisglair gan oleuadau stryd ar hyd y lan.

The boat captain was drunk and did not see the person in the water, although the river was brightly lit by street lights along the bank.

Rhedodd y cwch dros y lleidr, a'i goes wedi ei hanafu'n wael gan y propelor.

The boat ran over the burgler, and his leg was badly injured by the propellor.

Ni stopiodd y cwch, ond llwyddodd i gyrraedd y lan.

The boat did not stop, but he managed to get to the bank.

Gwelodd Huw, a oedd wedi bod yn cerdded ar hyd glan yr afon, y gyfres gyfan o ddigwyddiadau a ffilmiodd popeth ar ei ffôn symudol.

Huw, who had been walking along the river bank, saw the whole sequence of events and filmed everything on his mobile phone.

Galwodd y gwasanaethau brys heb roi ei enw, yna aeth adref ac arddangos y ffilm ar ei gyfrif cyfryngau cymdeithasol.

He called the emergency services without giving his name, then went home and displayed the film on his social media account.

Rhannwyd hyn miloedd o weithiau.

This was shared thousands of times.

Drannoeth, casglodd yr heddlu bawb a gymerodd ran a mynd â nhw i orsaf yr heddlu i'w cwestiynu.

The next day, the police picked up everyone involved and took them to the police station for questioning.

Roedd y lleidr o dan warchodaeth yn yr ysbyty.

The burgler was under guard in the hospital.

Treuliodd yr arolygydd a oedd yn gyfrifol am yr achos oriau yn darllen trwy'r adroddiadau.

The inspector in charge of the case spent hours reading through the reports.

"Dyma fydd un o fy achosion mwy cofiadwy" meddyliodd wrtho'i hun.

"This will be one of my more memorable cases" he thought to himself.

## Use of Welsh: Regenerating town centres



**A series of seminars are being arranged with local community and business leaders in Wales. The objective is to collect information about the problems facing town centres and the ways in which town centres can be regenerated. On the web page you are invited to translate the text of an introductory presentation which explains the objectives of the seminar and outlines the topics which will be discussed.**

Croeso i'r drafodaeth hon am yr anawsterau sy'n wynebu canol trefi.

Welcome to this discussion about the difficulties facing town centres.

Yn ystod y sesiynau, hoffem ni glywed astudiaethau achos o'r problemau sy'n wynebu'ch trefi, a straeon llwyddiant am wella'ch strydoedd mawr.

During the sessions, we would like to hear case studies of problems facing your towns, and success stories about improving your high streets.

Rydyn ni'n gobeithio llunio adroddiad sy'n rhoi syniadau a chynghor i arweinwyr busnes a chymuned ar adfywio canol trefi.

We hope to compile a report giving ideas and advice for business and community leaders on town centre regeneration.

Rydyn ni i gyd yn ymwybodol o ddirywiad yn llawer o strydoedd mawr.

We are all aware of the decline of many high streets.

Mae nifer y siopau gwag yn cynyddu, gyda rhai siopau mawr adnabyddus bellach ar gau.  
The number of empty shops is increasing, with some large well-known stores now closed.

Mae nifer y siopau elusen a siopau betio wedi cynyddu, tra bod banciau a gwasanaethau eraill fel swyddfeydd post wedi cau.

The number of charity shops and betting shops has increased, whilst banks and other services such as post offices have closed.

Nid yw rhai canol trefi bellach yn ddeniadol i ymwelwyr, ac mae siopwyr yn mynd yn lle hynny i ganolfannau siopa y tu allan i'r dref.

Some town centres are no longer attractive to visitors, and shoppers go instead to out-of-town shopping centres.

Hoffem ichi ystyried nifer o gwestiynau.

We would like you to consider a number of questions.

Pa ddefnydd y gellir ei wneud o adeiladau siopau sy'n wag ar hyn o bryd?

What use can be made of shop buildings which are currently empty?

A fyddai busnesau manwerthu yn cael eu denu i'r adeiladau hyn pe bai rhenti a threth y cyngor yn cael eu gostwng?

Would retail businesses be attracted to these buildings if rents and council tax were reduced?

Ai newid defnydd ar gyfer adeiladau siopau gwag fyddai'r ateb gorau, er enghraifft: eu gwneud yn fflatiau preswyl neu'n weithdai crefft bach?

Would a change of use for empty shop buildings be the best solution, for example: making them into residential flats or small craft workshops?

A fyddai'n fantais neu'n anfantais creu mwy o ardaloedd i gerddwyr, gyda strydoedd siopa ar gau i gerbydau?

Would it be an advantage or disadvantage to create more pedestrian areas, with shopping streets closed to vehicles?

A all caffis a bwytai elwa o greu ardaloedd bwyta y tu allan gyda byrddau a chadeiriau yn cael eu caniatáu ar y palmant?

Can cafes and restaurants benefit from outside dining areas being created with tables and chairs allowed on the pavement?

A yw parcio ceir o amgylch canol trefi yn ddigonol, yn gyfleus i'r siopau ac yn fforddiadwy?

Is car parking around town centres adequate, convenient for the shops and affordable?

A yw mynediad i ganol y dref ar drafnidiaeth gyhoeddus yn ddigonol, neu a ddylid newid llwybrau bysiau neu amllder gwasanaethau?

Is access to the town centre by public transport adequate, or should bus routes or the frequency of services be changed?

A yw safon cynnal a chadw a glendid strydoedd canol tref yn foddhaol, neu a oes angen gwaith pellach gan gynghorau lleol?

Is the standard of maintenance and cleanliness of town centre streets satisfactory, or is further work needed by local councils?

A ellir gwneud amgylchedd canol y dref yn fwy deniadol, er enghraifft: trwy ddarparu mwy o ardaloedd o laswellt a phlanhigion, neu ddarparu mwy o seddi?

Can the town centre environment be made more attractive, for example: by providing more areas of grass and plants, or providing more seating?

A ellir cynyddu nifer yr ymwelwyr trwy leoli mwy o gyfleusterau cyhoeddus yng nghanol trefi, fel meddygfeydd a chanolfannau hamdden?

Can visitor numbers be increased by locating more public facilities in town centres, such as doctors' surgeries and leisure centres?

A yw canol y trefi yn lleoedd diogel i ymweld â nhw, yn enwedig ar ôl iddi nosi?

Are the town centres safe places to visit, particularly after dark?

A ddylai mwy o staff diogelwch fod yn bresennol, ac a ddylid gwella'r sylw gan deledu cylch cyfyng?

Should more security staff be present, and should the coverage by closed circuit television be improved?

## Description



- Pa fath o bwll glo yw hwn?
- Ydy goledd y creigiau'n raddol neu'n serth?
- Pa offer sy'n cael ei ddangos, a beth yw ei bwrpas?
- A yw llawer o weithwyr yn cael eu cyflogi yn y pwll?
- Pa effaith mae'r cloddio hwn wedi'i gael ar yr amgylchedd?

## Understanding Welsh

### Volunteering to work on Ynys Enlli

Saif Ynys Enlli oddi ar ben draw penrhyn Llŷn ac mae'n lle pwysig o ran byd natur, hanes, archeoleg, treftadaeth ac ysbrydoliaeth. Perchennog yr ynys yw Ymddiriedolaeth Ynys Enlli a hwy sy'n ei rheoli ac yn ei chynnal, yn cynnwys yr adeiladau rhestredig Gradd II. Mae naw o'r rhain ar hyn o bryd yn cael eu gosod i ymwelwyr. Os yw'r tywydd yn braf, mae'r ynys yn agored i ymwelwyr drwy gydol y gwanwyn, yr haf a'r hydref.

Rydym yn awyddus i ddod o hyd i wirfoddolwyr a hoffai dreulio lleiafswm o wythnos yn Enlli i helpu gydag ystod o brojectau a gwaith cynnal a chadw.

Gwaith:

- Helpu i gynnal, glanhau a rheoli'r llety a chyfleusterau ymwelwyr
- Peintio, addurno
- Tasgau cynnal a chadw cyffredinol ar yr ynys (clirio llwybrau, cynnal a chadw'r adeiladau, codi cloddiau cerrig sych, garddio ayyb).
- Cynorthwyo'r Wardeniaid gyda gwaith arall fel bo angen
- Cynorthwyo gyda llwytho a dadlwytho bagiau a bocsys ymwelwyr o'r cwch
- Cynnal arolygon ymwelwyr
- Cynorthwyo ymwelwyr yn ystod eu gwyliau.

Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn berchen ar y profiad/medrau/agwedd canlynol

Hanfodol

- Natur benderfynol, yn fodlon gweithio ym mhob tywydd ac mewn lleoliadau anghysbell
- Yn gorfforol ffit
- Lefel uchel o gymhelliant, yn fodlon gweithio'n annibynnol ac fel un o dîm
- Agwedd hyblyg

Dymunol

- Brwdfrydedd tuag at fywyd gwyllt a chadwraeth dreftadaeth
- Profiad mewn rheolaeth gwarchodfa/gwaith llaw sylfaenol
- Profiad mewn medrau adeiladu, ee plastro, gwaith coed, toi.
- Siarad Cymraeg

**GWYBODAETH BWYSIG**

Llety

Darperir llety ar yr ynys, byddwch yn rhannu gyda gwirfoddolwyr eraill. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus ddod â chyfyr cwilt sengl, cynfas gwely a chesys gobennydd eu hunain. Darperir blancedi a gobennydd. Cyflenwir dillad amddiffynnol fel bo angen.

Bwyd

Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus ddarparu eu bwyd eu hunain. Yn y gegin gymunedol mae oergell a chypyrddau a stôf nwy ar gyfer coginio. Nid oes trydan yn y llety ond os oes angen llwytho unrhyw declyn gallwch wneud hyn yng nghartref y Wardeniaid.

Cwch/cludiant

Bydd yn ofynnol i chi dalu ffi'r cwch eich hunan. Byddwn ni yn gadael i Colin, perchennog y cwch, wybod eich bod yn dod, ac yn rhoi manylion sut i dalu i chi.

**SUT I WNEUD CAIS**

Llenwch y ffurflen gais os gwelwch yn dda. Does dim angen i chi anfon llythyr yn cyflwyno eich hun na CV fel rhan o'ch cais.

Where is Ynys Enlli, and who owns it?

Mae Ynys Enlli oddi ar ben draw penrhyn Llŷn. Perchennog yr ynys yw Ymddiriedolaeth Ynys Enlli.

When can people visit the island, and is it possible for visitors to stay for more than one day?

Gall ymwelwyr ddod i'r ynys yn ystod cyfnodau o dywydd da yn y gwanwyn, yr haf a'r hydref. Mae adeiladau ar yr ynys yn darparu llety i ymwelwyr.

What tasks might volunteers be asked to carry out?

Mae gwaith gwirfoddolwyr yn cynnwys cynnal a chadw o'r adeiladau a ddefnyddir gan ymwelwyr, cynorthwyo ymwelwyr gyda'u bagiau, a gwneud gwaith cynnal a chadw o amgylch yr ynys, megis atgyweirio llwybrau a waliau.

What personal qualities and skills are required or desirable for volunteers?

Dylai gwirfoddolwyr fod yn ffit yn gorfforol, yn barod i weithio ar amrywiaeth o dasgau mewn gwahanol dywydd, a dylent fod â chymhelliant da. Byddai'n ddefnyddiol pe bai gan wirfoddolwyr sgiliau arbennig mewn gwaith adeiladu neu gadwraeth natur, ac yn gallu siarad Cymraeg.

What must volunteers provide when they are staying on the island?

Dylai gwirfoddolwyr ddarparu eu cynfasau gwely eu hunain, a bwyd i'w coginio.

How do volunteers arrange to reach the island?

Dylai gwirfoddolwyr drefnu eu teithiau yn ôl ac ymlaen i'r ynys trwy gysylltu â pherchennog y cwch fferi.

## Story board

### Industrial history of the heads of the valleys

1: The heads of the valleys is the region on the northern edge of the South Wales Coalfield. Some coal seams outcrop at the surface in this area, and others lie below the ground. Closure of Tower Colliery, the last deep mine in Wales, was authorised by Margaret Thatcher. However, the miners at Tower Colliery were successful in buying the mine and continued to operate it themselves. The mine finally closed in 2008.

Blaenau'r cymoedd yw'r rhanbarth ar ymyl ogleddol Maes Glo De Cymru. Mae rhai gwythiennau glo yn brigo i'r wyneb yn yr ardal hon, ac mae eraill yn gorwedd o dan y ddaear. Awdurdodwyd cau Pwll Glo'r Tŵr, y pwll glo dwfn olaf yng Nghymru, gan Margaret Thatcher. Fodd bynnag, llwyddodd y glowyr yng Nglofa'r Tŵr i brynu'r pwll glo a pharhau i'w weithredu eu hunain. Caeodd y pwll o'r diwedd yn 2008.





2: In addition to coal, the layers of rock contain iron ore. This ore was mined and used in the early iron works of the region. Iron mining continued into the 20th century, supplying ore by railway to the large steelworks of South Wales. Iron ore was mined in a similar way to coal, and brought to the surface up a winding shaft. At Llanharry iron ore mine, some of the old mine buildings can still be seen.

Yn ogystal â glo, mae'r haenau o graig yn cynnwys mwyn haearn. Cafodd y mwyn hwn ei gloddio a'i ddefnyddio yng ngwaith haearn cynnar yr ardal. Parhaodd mwyngloddio haearn i mewn i'r 20fed ganrif, gan gyflenwi mwyn ar y rheilffordd i weithfeydd dur mawr De Cymru. Roedd mwyn haearn yn cael ei gloddio mewn ffordd debyg i lo, a'i ddwyn i'r wyneb i fyny siafft weindio. Yng ngwaith mwyn haearn Llanhari, mae rhai o hen adeiladau'r mwynglawdd i'w gweld o hyd.



3: With coal and iron ore readily available locally, the heads of the valleys region became an early centre for iron production. Remains of some of the first blast furnaces can be seen at the Clydach ironworks near Abergavenny.

Gyda glo a mwyn haearn ar gael yn lleol, daeth ardal blaenau'r cymoedd yn ganolfan gynnar ar gyfer cynhyrchu haearn. Mae olion rhai o'r ffwrneisi chwyth cyntaf i'w gweld yng ngwaith haearn Clydach ger Y Fenni.



4: Much larger ironworks developed around Merthyr Tydfil in the nineteenth Century. The largest works were at Cyfarthfa, Penydarren and Dowlais, with blast furnaces, coke ovens, and rolling mills covering a huge area. The remains of blast furnaces at the Cyfarthfa works can still be seen.



Datblygodd gweithfeydd haearn llawer mwy o amgylch Merthyr Tudful yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd y gweithfeydd mwyaf yng Nghyfarthfa, Penydarren a Dowlais, gyda ffwrneisi chwyth, ffyrnau golosg, a melinau rholio yn gorchuddio ardal enfawr. Mae adfeilion ffwrneisi chwyth yng ngwaith Cyfarthfa i'w gweld o hyd.

5: In addition to iron ore and coal, the smelting of iron requires limestone. This was available from large quarries around the hillsides of the area.

Yn ogystal â mwyn haearn a glo, mae angen calchfaen i fwyndoddi haearn. Roedd hwn ar gael o chwareli mawr o gwmpas llechweddau'r ardal.



6: In the first half of the nineteenth century, iron produced in Merthyr Tydfil was transported along the Glamorgan Canal to Cardiff, then exported by sailing ship. Iron from Blaenafon ironworks was carried on the Monmouthshire and Brecon canal to Newport docks.

Yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cludwyd haearn a gynhyrchwyd ym Merthyr Tudful ar hyd Camlas Morgannwg i Gaerdydd, ac yna ei allforio ar long hwylio. Cludwyd haearn o waith haearn Blaenafon ar gamlas Mynwy ac Aberhonddu i ddociau Casnewydd.



7: A system tramways existed around the hills to connect the iron works to the limestone quarries and the canal wharves. Wagons were pulled by horses. It was along one of these tramways that Trevithick ran his first steam locomotive, pulling a train of waggons from the iron works to the canal.



Roedd system tramffyrdd yn bodoli o amgylch y bryniau i gysylltu'r gwaith haearn â'r chwareli calchfaen a glanfeydd y gamlas. Tynnwyd wagenni gan geffylau. Ar hyd un o'r tramffyrdd hyn y rhedodd Trevithick ei locomotif stêm cyntaf, gan dynnu trên o wagenni o'r gwaith haearn i'r gamlas.

8: One of the most historic buildings in Merthyr Tydfil is the Dowlais ironworks stables, where several hundred horses were kept. The ironworks company employed blacksmiths, and owned farms around the town where hay was grown to feed the horses. In the mid 19th century, Lady Charlotte Guest established a school for local children in the rooms on the upper floor.



Un o adeiladau mwyaf hanesyddol Merthyr Tudful yw stablau gwaith haearn Dowlais, lle cedwid rhai cannoedd o geffylau. Roedd cwmni'r gwaith haearn yn cyflogi gofaint, ac yn berchen ar ffermydd o gwmpas y dref lle tyfwyd gwair i fwydo'r ceffylau. Yng nghanol y 19eg ganrif, sefydlodd y Fonesig Charlotte Guest ysgol i blant lleol yn yr ystafelloedd ar y llawr uchaf.

9: In the second half of the 19th century, a network of railways was built to serve the coal mines and iron works of the South Wales valleys. Coal and iron could be quickly transported to the docks for export. A railway also ran along the heads of the valleys between Merthyr Tydfil and Abergavenny. Viaducts and tunnels had to be built to carry the line through the Clydach gorge.



Yn ail hanner y 19eg ganrif, adeiladwyd rhwydwaith o reilffyrdd i wasanaethu pyllau glo a gweithfeydd haearn cymoedd De Cymru. Gallai glo a haearn gael eu cludo'n gyflym i'r dociau i'w hallforio. Rhedai rheilffordd hefyd ar hyd blaenau'r cymoedd rhwng Merthyr Tydfil a'r Fenni. Bu'n rhaid adeiladu traphontydd a thwneli i gario'r lein drwy geunant Clydach.

# 26 Welsh politics

## Language notes

In this section we will summarise the short form **cryno** verb patterns, and compare these with the equivalent tenses of **bod** which are used to construct long form **cwmpasog** tenses.

**Present/future** short form verbs use the pattern:

<b>Dysgaf i</b>	-	I will learn
<b>Dysgai di</b>	-	you will learn (familiar singular)
<b>Dysgiff/-ith e/o/hi</b>	-	he/she will learn
<b>Dysgwn ni</b>	-	we will learn
<b>Dysgwch chi</b>	-	you will learn (formal singular, plural)
<b>Dysgan nhw</b>	-	they will learn

Present or future time is determined from the context of the sentence:

**Cerddaf ar hyd glan yr afon bob bore.**

I walk along the river bank every morning.

**Ymunwn ni â'r clwb chwaraeon y flwyddyn nesaf.**

We will join the sports club next year.

Notice that the third person singular is used with nouns, even if these are plural:

**Dysgiff y plant Sbaeneg eleni.**

The children will learn Spanish this year.

The equivalent tense of **bod** is:

<b>Byddaf i</b>	-	I will be
<b>Byddi di</b>	-	You will be (familiar singular)
<b>Bydd e/o/hi</b>	-	He/she/it will be
<b>Byddwn ni</b>	-	We will be
<b>Byddwch chi</b>	-	You will be (formal singular, plural)
<b>Byddan nhw</b>	-	They will be

This is only used for actions occurring in the future:

**Byddan nhw'n agor y bwyty fis nesaf.**

They will be opening the restaurant next month.

One of the alternative present tenses of **bod** is used for actions occurring at the present time:

**Mae'r siop yn gwerthu llyfrau ail-law.**

The shop sells second-hand books.

**Caergybi yw'r dref fwyaf yn Ynys Môn.**

Holyhead is the largest town in Anglesey.

**Ffermio defaid sy'n prif weithgaredd amaethyddol.**

Sheep farming is the main agricultural activity.

Past tense short form verbs use the pattern:

<b>Dringoes / dringais i</b>	-	I climbed
<b>Dringest/ dringaist ti</b>	-	you climbed (familiar singular)
<b>Dringodd e/o/hi</b>	-	he/she climbed
<b>Dringon ni</b>	-	we climbed
<b>Dringoch chi</b>	-	you climbed (formal singular, plural)
<b>Dringon nhw</b>	-	they climbed

The past tense is used to describe an action taking place at a particular time in the past:

**Symudodd y ffermwr y gwartheg i'r beudy.**

The farmer moved the cattle to the cowshed.

Where an action continued for an extended period, the imperfect tense is used instead:

**Roedden ni'n byw mewn hen fwthyn ger yr harbwr.**

We lived in an old cottage by the harbour.

The equivalent past tense of **bod** is:

<b>Bues i</b>	-	I was
<b>Buest ti</b>	-	you were (familiar singular)
<b>Buodd e/o/hi</b>	-	he/she was
<b>Buon ni</b>	-	we were
<b>Buoch chi</b>	-	you were (formal singular, plural)
<b>Buon nhw</b>	-	they were

The past tense of **bod** is used for an action occurring at one particular time in the past:

**Bues i yn ail yn y gystadleuaeth.**

I was runner up in the competition.

**Buodd e farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf.**

He died in the First World War.

**Conditional** short form verbs use the pattern:

<b>Gallwn i</b>	-	I would be able to
<b>Gallet ti</b>	-	you would be able to (familiar singular)
<b>Gallai fe/fo/hi</b>	-	he/she would be able to
<b>Gallen ni</b>	-	we would be able to
<b>Gallech chi</b>	-	you would be able to (formal singular, plural)
<b>Gallen nhw</b>	-	they would be able to

This tense is used where there is doubt about an action taking place:

**Prynen ni gi pe bai gennyn ni dŷ mwy.**

We would buy a dog if we had a bigger house.

**Dylech chi chwilio am swydd well.**

You should look for a better job.

There are several alternatives for the conditional tense of **bod**:

<b>Byddwn i</b>	<b>Baswn i</b>	-	I would
<b>Byddet ti</b>	<b>Baset ti</b>	-	you would (familiar singular)
<b>Byddai fe/fo/hi</b>	<b>Basai fe/fo/hi</b>	-	he/she would
<b>Bydden ni</b>	<b>Basen ni</b>	-	we would
<b>Byddech chi</b>	<b>Basech chi</b>	-	you would (formal singular, plural)
<b>Bydden nhw</b>	<b>Basen nhw</b>	-	they would

These can be used to produce long form conditional tenses:

**Byddai fe'n mynd i'r gwely pe bai wedi blino.**

He would go to bed if he was tired.

**Byddwn i'n paentio'r gegin pe bai gen i fwy o amser.**

I would paint the kitchen if I had more time.

The commonly used verbs **cael** (have), **mynd** (go), **dod** (come) and **gwneud** (do) generally have irregular short form tenses:

Present/future tense (I will have, you will have, etc.):

<u>cael</u>	<u>mynd</u>	<u>dod</u>	<u>gwneud</u>
caf i	af i	dof i	gwnaaf i
